



ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft – crynodeb o'r adborth o ddigwyddiadau rhanbarthol i randdeiliaid

Ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft – crynodeb o'r adborth o ddigwyddiadau rhanbarthol i randdeiliaid

Cynulleidfa

Ysgolion a gynhelir, sefydliadau addysg bellach, awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, lleoliadau'r blynyddoedd cynnar, sefydliadau'r trydydd sector ac unrhyw un arall â diddordeb mewn anghenion dysgu ychwanegol.

Trosolwg

Ceir yn yr adroddiad hwn grynodeb o'r adborth a ddarparwyd mewn gweithdai ynghylch yr ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft i Gymru o'r digwyddiadau ymgynghori rhanbarthol a gynahliwyd ym mis Chwefror 2019.

Camau i'w cymryd

I'w ddarllen ar y cyd â'r crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Tîm Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol

Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr

Y Gyfarwyddiaeth Addysg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 03000 253 650

e-bost: SENReforms@llyw.cymru



[@LIC_Addysg](https://twitter.com/LIC_Addysg)



[Facebook/AddysgCymru](https://www.facebook.com/AddysgCymru)

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn

<https://llyw.cymru/cod-anghenion-dysgu-ychwanegol-drafft>

Dogfennau cysylltiedig

Cod Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru (2018)

Cod Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru dogfen ymgynghori (2018)

Cod Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru crynodeb o'r ymatebion (2019)

Cynnwys

1. Cyflwyniad a'r Cefndir	3
1.1 Cyflwyniad	3
1.2 Cefndir Cod Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru	3
1.3 Cefndir yr Ymgynghoriad	3
1.4 Strwythur yr Adroddiad	4
2. Crynodeb o'r Adborth	5
2.1 Amserlenni yn y Cod Drafft ADY	5
2.2 Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar (Pennod 8)	5
2.3 Penderfyniadau Awdurdodau Lleol am Leoliadau Arbenigol Ôl-16 (Pennod 12)	6
2.4 Iechyd a Rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (Pennod 15)	7
2.5 Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Pennod 24 a'r Rheoliadau CADY)	7
2.6 Cyngor, Gwybodaeth a Datrys Anghytundeb (Penodau 6 a 25)	8
3. Amserlenni yn y Cod Drafft ADY	9
3.1 Cyd-destun	9
3.2 Strwythur	9
3.3 Ymatebion	9
4. Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar (Pennod 8)	14
4.1 Cyd-destun	14
4.2 Strwythur	14
4.3 Ymatebion	14
5. Penderfyniadau Awdurdodau Lleol ynghylch Lleoliadau Arbenigol Ôl-16 (Pennod 12)	17
5.1 Cyd-destun	17
5.2 Strwythur	17
5.3 Ymatebion	17
6. Iechyd a Rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (Pennod 15)	20
6.1 Cyd-destun	20
6.2 Strwythur	20
6.3 Ymatebion	21
7. Cydlynnydd	25
7.1 Cyd-destun	25
7.2 Strwythur	25
7.3 Ymatebion	25
8. Cyngor, Gwybodaeth a Datrys Anghytundebau (Penodau 6 a 25)	30

8.1 Cyd-destun	30
8.2 Strwythur	30
8.3 Ymatebion	31
9. Y Camau Nesaf	36
10. Atodiad 1 – sylwadau ychwanegol	37

1. Cyflwyniad a'r Cefndir

1.1 Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno crynodeb o'r adborth a ddarparwyd mewn gweithdai ar ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar God Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru trwy ddigwyddiadau ymgynghori rhanbarthol a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2019.

1.2 Cefndir Cod Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru

Un o gamau gweithredu allweddol Llywodraeth Cymru dan yr amcan rhagoriaeth, tegwch a lles yn Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth Ein Cenedl 2017-2021 yw 'adeiladu ar ein hymrwymiad i degwch mewn addysg drwy gyflwyno fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer nodi a chefnogi dysgwyr drwy Fil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), a luniwyd i atgyfnerthu darpariaeth ledled Cymru i bob dysgwr ag ADY, ym mhob lleoliad iaith¹. Mae'r rhaglen trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) – y mae fframwaith deddfwriaethol newydd yn rhan hanfodol ohoni – hefyd yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth, cydweithio amlasiantaeth a thraws-sector a chymorth gweithredu ar gyfer y newidiadau sydd ar y gorwel.

Cafodd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ('y Ddeddf') Gydsyniad Brenhinol ym mis Ionawr 2018. Bydd y Ddeddf a rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf yn disodli deddfwriaeth bresennol mewn perthynas ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ac asesu plant a phobl ifanc ag anawsterau dysgu a/neu anabledau (ADA) mewn addysg a hyfforddiant ôl-16.

Mae'r Ddeddf yn nodi bod rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod ADY statudol, a all gynnwys canllawiau ynghylch arfer swyddogaethau dan y Ddeddf ac unrhyw fater arall sy'n gysylltiedig ag adnabod a diwallu ADY. Bydd y Cod ADY yn disodli Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru sydd mewn grym ar hyn o bryd.

1.3 Cefndir yr Ymgynghoriad

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cod Drafft ADY rhwng 10 Rhagfyr 2018 a 22 Mawrth 2019.

Fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus, trefnodd Llywodraeth Cymru ddau ddigwyddiad ymgynghori hanner diwrnod yn ardal pob un o'r pedwar consortiwm rhanbarthol yng Nghymru ar y dyddiadau canlynol:

¹ Welsh Government (2017), Education in Wales: Our National Mission 2017-21
<https://beta.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/education-in-wales-our-national-mission.pdf>

- Casnewydd – 12 Chwefror 2019
- Llanelli - 13 Chwefror 2019
- Caerdydd - 19 Chwefror 2019
- Llandudno - 21 Chwefror 2019

Cafodd y digwyddiadau ymgynghori eu hysbysebu trwy'r dudalen ymgynghori ar y wefan, Dysg, negeseuon e-bost oddi wrth Lywodraeth Cymru at randdeiliaid, a chawsant eu hyrwyddo trwy'r Arweinwyr Trawsnewid ADY Rhanbarthol.

Roedd y digwyddiadau ymgynghori'n agored i unrhyw un a oedd yn cofrestru ac roedd rhanddeiliaid o ystod eang o sectorau'n bresennol ynddynt, gan gynnwys addysg, iechyd, y gwasanaethau cymdeithasol, darparwyr y blynyddoedd cynnar a sefydliadau'r trydydd sector; yn ogystal â rhieni i ddysgwyr ag ADY.

Roedd yr agenda yr un fath ar gyfer pob digwyddiad hanner diwrnod ac yn cynnwys:

- cyflwyniad cychwynnol gan Lywodraeth Cymru ar y Cod Drafft ADY
- gweithdy torfol i drafod ac ateb cwestiynau ymgynghori am yr amserlenni a gynigir yn y Cod drafft ADY
- gweithdai ymrannu.

Yn y gweithdai ymrannu trafodwyd pum thema a ddewiswyd gan Lywodraeth Cymru:

- Y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY)
- Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar (SAADY y Blynyddoedd Cynnar)
- Penderfyniadau awdurdodau lleol am leoliadau arbenigol ôl-16
- Cyngor, gwybodaeth a datrys anghytundeb
- Iechyd a rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA).

Rhoddodd Llywodraeth Cymru gomisiwn i bartneriaeth rhwng Miller Research, OB3 a Dateb hwyluso'r trafodaethau yn y digwyddiadau ymgynghori a llunio adroddiad sy'n crynhoi'r ymatebion a gasglwyd drwyddynt.

1.4 Strwythur yr Adroddiad

- Mae Adran 2 yn cyflwyno crynodeb lefel-uchel o'r adborth o'r holl weithdai yn y digwyddiadau ymgynghori.
- Mae Adrannau 3 i 8 yn trafod pob un o'r gweithdai yn y digwyddiadau ymgynghori mewn mwy o fanylder, gan ddarparu'r cyd-destun polisi, strwythur y gweithdy a chrynodeb o'r adborth.
- Mae Adran 9 yn nodi'r camau nesaf ar gyfer yr ymgynghoriad.
- Mae atodiad yn cynnwys crynodeb o sylwadau ychwanegol a wnaed gan y rhai a oedd yn bresennol yn y digwyddiadau ymgynghori.

2. Crynodeb o'r Adborth

2.1 Amserlenni yn y Cod Drafft ADY

Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn cytuno ag egwyddor rhagnodi amserlenni ar gyfer cydymffurfio â dyletswyddau a nodir gan y Cod.

Lleisiodd nifer o'r cyfranogwyr bryder ynghylch yr amserlenni penodol a oedd yn cael eu cynnig. Roeddent yn cael eu hystyried yn her, yn enwedig oherwydd natur gwaith amlasiantaeth a lle'r oedd angen cynnwys asiantaethau ieuchyd.

Roedd nifer o'r cyfranogwyr o'r farn y dylai fod sefyllfaoedd penodedig lle'r oedd eithriadau i'r amserlenni hyn yn cael eu caniatáu. Cynigiodd rhai o'r cyfranogwyr y dylid darparu ar gyfer oedi yn y system a materion teuluol, er enghraifft gwyliau neu salwch. Roedd rhai o'r cyfranogwyr o'r farn na ddylai fod unrhyw eithriadau i'r amserlenni a ganiateir.

2.2 Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar (Pennod 8)

Roedd y cyfranogwyr yn cytuno bod Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar yn rôl bwysig ac roeddent yn croesawu'r ffaith bod y Ddeddf yn ei gwneud yn orfodol i awdurdod lleol ddynodi SAADY y Blynyddoedd Cynnar.

Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn meddwl bod y canllawiau ar rôl SAADY y Blynyddoedd cynnar yn ddigonol yn yr ystyr eu bod yn nodi swyddogaethau'r rôl mewn cryn fanylder. Darparodd y cyfranogwyr adborth cymysg wrth ystyried a yw'r canllawiau'n cyfleu natur strategol fwriadedig y rôl yn ddigonol. Dywedodd rhai cyfranogwyr fod y canllawiau ynghylch y rôl yn cyfleu iddynt bod y rôl wedi'i bwriadu i fod yn strategol; dywedodd eraill y gellid dehongli bod rhai elfennau o'r canllawiau'n awgrymu bod swyddogaethau gweithredol i'r rôl yn ogystal â rhai strategol. I ryw raddau, roedd yr adborth cymysg hwn ar y canllawiau i'w weld fel pe bai'n adlewyrchu dehongliadau gwahanol y cyfranogwyr o ystyr y term 'strategol'.

Awgrymodd nifer o gyfranogwyr fod yr ystod o swyddogaethau a oedd wedi'u cynnwys yn y canllawiau ynghylch rôl SAADY y Blynyddoedd Cynnar yn golygu y byddai'r rôl yn rhy fawr i un person. Roedd hyn yn arbennig o wir ymhlith y cyfranogwyr hynny a nododd fod rhai swyddogaethau'n fwy gweithredol na strategol.

Roedd gwahaniaeth barn ymhlith y cyfranogwyr wrth ystyried a yw'r canllawiau at brofiad ac arbenigedd SAADY y Blynyddoedd Cynnar yn ddigonol. Er bod nifer o gyfranogwyr yn cytuno â chynnwys y canllawiau, roedd ar nifer eisiau rhagor o fanylion a manylion mwy penodol ynglŷn â'r materion hyn. Yn arbennig, tynnodd cyfranogwyr sylw at y term 'yn ddigon cymwys' (pennod 8, paragraff 8.41 yn y Cod Drafft ADY) fel un yr oedd angen ei egluro. Fe wnaeth llawer o'r sgrysiâu rhwng y cyfranogwyr grybwyll yr angen i'r canllawiau ynghylch dewis SAADY y Blynyddoedd

Cynnar gan yr awdurdod lleol daro cydbwysedd rhwng profiad ac arbenigedd/cymwysterau.

Fel a grybwyllwyd yn flaenorol, mynegodd nifer o gyfranogwyr amheuaeth ynglŷn â gallu awdurdodau lleol i benodi unigolyn addas ar gyfer rôl SAADY y Blynyddoedd Cynnar oherwydd y profiad strategol eang yr oedd ei angen.

Fe wnaeth nifer o gyfranogwyr, gan gynnwys y rhai nad oeddent yn cynrychioli awdurdod lleol, fynegi pryder ynghylch sut y byddai rôl mor arwyddocaol yn cael ei chyllido mewn cyfnod o bwysau difrifol ar gyllidebau awdurdodau lleol.

2.3 Penderfyniadau Awdurdodau Lleol am Leoliadau Arbenigol Ôl-16 (Pennod 12)

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr yn y gweithdai ystyried ar ba sail y dylai person ifanc nad yw mewn ysgol a gynhelir na Sefydliad Addysg Bellach (SAB) fod â CDU. Roedd yr heriau sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau yn y maes hwn yn cael eu cydnabod ar y cyfan. Yn arbennig, roedd nifer o gyfranogwyr o'r farn y byddai penderfynu a oedd gan berson ifanc yn yr amgylchiadau hyn 'angen rhesymol am addysg a hyfforddiant' yn oddrychol iawn.

Roedd pryderon y byddai diffyg rheoliadau a chanllawiau eglur yn golygu y byddai'n rhaid datblygu cyfraith achosion i egluro beth fyddai'n gyfystyr ag angen rhesymol am addysg a hyfforddiant. Cynigiwyd y byddai rhagor o gyfarwyddyd yn cynorthwyo ymarferwyr i wneud achos amddiffynadwy, ond roedd cyfranogwyr yn ansicr ar y cyfan sut y byddai'n edrych.

Cafodd y cwestiwn ynglŷn â beth sy'n gyfystyr ag amcan dymunol ei drafod yn helaeth ar draws pob sesiwn. Un pwynt allweddol gan gyfranogwyr oedd na ddylai amcan dymunol ymwneud o anghenraid â chynnydd o ran dysgu yn nhermau addysg brif ffrwd, ond y gallai ymwneud â:

- hunanreoleiddio i ymgysylltu â'r gymuned (yr ystyrid ei fod yn hollbwysig)
- y gallu i gynnal sgwrs, neu sefydlu perthynas
- caffael sgiliau byw'n annibynnol
- gwella ansawdd bywyd.

Roedd cyfranogwyr yn cytuno ar y cyfan bod rhaid i'r awdurdod lleol ystyried y gobaith realistig y bydd person ifanc yn cyflawni amcan dymunol, ond bod angen i'r canllawiau ddarparu eglurder. Gwnaeth cyfranogwyr y pwynt y gallai fod yn amlwg iawn mewn rhai achosion nad yw amcan dymunol yn gyraeddadwy, ond y byddai angen canllawiau proffesiynol mewn achosion eraill.

Bu cryn drafod beth sy'n gyfystyr â chyfnod rhesymol i berson ifanc gyflawni amcan. Barn gref oedd y dylai'r hyn sy'n gyfystyr â chyfnod rhesymol o amser fod yn briodol i amgylchiadau'r dysgwr a natur yr amcan ac nid, fel yr oedd cyfranogwyr yn gyffredinol yn ei gasglu o eiriad y Cod Drafft ADY (ym mharagraff 12.27), yn gyfnod

penodedig o ddwy flynedd. Mynegodd nifer o gyfranogwyr bryder ynghylch y gymhariaeth â dysgwyr prif ffrwd yn y Cod Drafft ADY.

O ran argaeledd cwrs addysg neu hyfforddiant, mynegodd cyfranogwyr bryderon ynghylch amrywioldeb y ddarpariaeth a gyniri yn lleol, gan ddibynnu ar eu lleoliad yng Nghymru.

2.4 Iechyd a Rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (Pennod 15)

Roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yn croesawu cynnwys Byrddau Iechyd Lleol a chyflwyno rôl Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg o fewn y system ADY. Fodd bynnag, roedd sawl camddealltwriaeth am rôl y SACDA, yn enwedig y cylch gorchwyl allanol i ymgysylltu â phartneriaid eraill a chwestiynau am eu capasiti a'u swyddogaethau.

Dywedodd cyfranogwyr y dylai'r SACDA fod â phrofiad o weithio ar sail amlasiantaeth a dealltwriaeth dda am iechyd, addysg a gofal cymdeithasol. Roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr o'r farn y dylai'r SACDA allu perfformio mewn uwch rôl a rheoli tîm gweithredol i roi cymorth i gyflawni'r holl dasgau gofynnol.

Dywedwyd mai dim ond dan rai amgylchiadau penodol y byddai'n bosibl cydymffurfio ag amserlenni arfaethedig i gyrff perthnasol ymateb i geisiadau gan awdurdod lleol am wybodaeth a chymorth arall, ac i gyrff y GIG hysbysu awdurdodau lleol a SABiau am driniaeth neu wasanaeth perthnasol. Codwyd nifer fawr o faterion mewn perthynas â blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd ac anallu i ymlynu wrth y ffrâm amser arfaethedig o chwe wythnos. Cafodd pryderon ynghylch y posibilrwydd na fyddai'r broses yn cael ei chyflawni mewn modd ystyrlon o fewn yr amserlenni a bennwyd eu codi'n fynych.

2.5 Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Pennod 24 a'r Rheoliadau CADY)

Roedd consensws barn nad oedd rôl arfaethedig y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) yn annhebyg i rôl y Cydlynnydd Anghenion Addysgol Arbennig (CAAA) ar hyn o bryd er y teimlid bod y rôl yn fwy strategol. Felly roedd cyfranogwyr yn meddwl bod y cynnydd mewn cyfrifoldeb yn gam i fyny i rai sy'n cyflawni rôl CAAA ar hyn o bryd.

Dywedodd cyfranogwyr fod llinell gyfathrebu uniongyrchol gyda'r Uwch Dîm Arwain (UDA) neu gynnwys y rôl yn yr UDA yn hanfodol i alluogi elfennau strategol y rôl. Nododd nifer o gyfranogwyr y gallai hyn achosi anawsterau mewn ysgolion llai.

Y consensws oedd bod angen i'r CADY feddu ar gymwysterau priodol; bod yn athro cymwysedig ond nid yn Athro Newydd Gymhwysu (ANG). Mynegodd nifer o gyfranogwyr bryder y gallai rhai aelodau o staff ddefnyddio'r rôl fel llwybr cyflym i

mewn i'r UDA. Awgrymodd y cyfranogwyr hefyd y dylai hyfforddiant ychwanegol fod yn ofynnol.

2.6 Cyngor, Gwybodaeth a Datrys Anghytundeb (Penodau 6 a 25)

Roedd cyfranogwyr yn cytuno y dylai gwybodaeth am anghytundebau fod ar gael mewn ystod o fformatau; ar-lein / ar bapur ac yn hygyrch i bob cynulleidfa – gan gynnwys cyfeirio plant, rhieni a phobl ifanc yn ddigonol at ffynonellau gwybodaeth, cyngor a chymorth perthnasol a allai fod ar gael yn lleol ac yn genedlaethol.

Dywedodd cyfranogwyr fod angen safoni gwybodaeth a phrosesau ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru ond ei bod yn bwysig sicrhau hynny ar draws asiantaethau gwahanol hefyd.

Ar ben hynny, roedd cyfranogwyr o'r farn bod angen tryloywder a chysondeb ar draws yr holl asiantaethau, gan sicrhau dealltwriaeth glir gan bob cynulleidfa am amserlenni amrywiol prosesau.

Roedd safbwyntiau cryf gan gyfranogwyr a oedd yn cwestiynu a allai awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau eirioli 'annibynnol' yn uniongyrchol. Dadleuodd llawer o gyfranogwyr y gallai hyn greu gwrthdaro buddiannau ac na allai fod yn wirioneddol annibynnol na diduedd. Awgrymodd rhai cyfranogwyr y dylai sefydliadau allanol presennol barhau i gael comisiynau gan awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau eirioli annibynnol.

Cynigiodd cyfranogwyr fod angen i bob eiriolwr gael hyfforddiant priodol gorfodol yn ogystal â meddu ar brofiad a dealltwriaeth am y sectorau addysg ac iechyd a sgiliau cyfathrebu ardderchog.

3. Amserlenni yn y Cod Drafft ADY

3.1 Cyd-destun

Defnyddiwyd y sesiwn gychwynnol ym mhob gweithdy i drafod yr amserlenni arfaethedig yn y Cod Drafft ADY ar gyfer cwblhau amryw ddyletswyddau. Diben y gweithdy oedd profi a yw'r amserlenni arfaethedig, a'r ffordd y cânt eu disgrifio yn y Cod Drafft ADY, yn briodol.

3.2 Strwythur

Gofynnwyd i gyfranogwyr ateb tri chwestiwn allweddol;

- Roedd y cyntaf yn ymwneud â'r ymagwedd gyffredinol tuag at amserlenni ar gyfer cydymffurfio â dyletswyddau yn y Cod Drafft ADY (hynny yw, gweithredu'n brydlon a ph'un bynnag o fewn cyfnod penodol)
- Roedd yr ail gwestiwn yn ymwneud â hyd yr amserlenni arfaethedig y bydd yn ofynnol i ysgolion, SABau ac awdurdodau lleol gydymffurfio â hwy wrth benderfynu a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY a naill ai rhoi gwybod am benderfyniad nad oes ganddynt ADY, neu os mai'r penderfyniad yw bod ganddynt ADY, paratoi'r Cynllun Datblygu Unigol (CDU) a rhoi copi ohono. Mae'r amserlenni arfaethedig fel a ganlyn:
 - 35 diwrnod ysgol yn achos ysgolion;
 - 35 diwrnod yn ystod tymor SAB yn achos SABau;
 - 12 wythnos os yw awdurdod lleol yn gwneud penderfyniad cychwynnol pa un a oes gan blentyn ADY, 7 wythnos yn achos adolygiadau neu ailystyriaeth gan awdurdodau lleol.
- Roedd y trydydd cwestiwn yn gofyn a oedd yr eithriad cyffredinol arfaethedig i gwblhau gweithred o fewn amserlen penodol yn briodol - sef 'nid yw'r gofyniad yn berthnasol os yw'n anymarferol i'r person perthnasol wneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth.

Trafodwyd y cwestiynau hyn gan yr holl gyfranogwyr mewn grwpiau o amgylch byrddau yn y prif sesiynau torfol.

3.3 Ymatebion

Cwestiwn 1 - Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu cyffredinol mewn perthynas ag amserlenni ar gyfer cydymffurfio â dyletswyddau (hynny yw, gweithredu'n brydlon a, ph'un bynnag, o fewn cyfnod penodol?)

Roedd y cyfranogwyr yn derbyn ar y cyfan y dylid pennu amserlenni. Roedd cyfranogwyr o'r farn bod yr amserlenni arfaethedig yn well na'r trefniadau presennol o safbwynt y dysgwr a'i deulu, gan eu bod yn fyrrach na'r amserlenni cyfatebol yn y

system AAA bresennol. Teimlai'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr fod ymateb 'yn brydlon' yn bwysig a bod angen rhoi anogaeth ar gyfer hyn.

Fodd bynnag, roedd pryder ynghylch hyd yr amserlenni, oherwydd canfyddiad eang y byddai angen cydweithio amlasiantaeth wrth ymateb i'r camau hyn yn y rhan fwyaf o achosion. Roedd cyfranogwyr o'r tu allan i'r sector iechyd yn mynnu y dylai amserlenni fod yn berthnasol i bob corff sy'n rhan o'r broses er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw rwystrau yn y system. Gofynnodd ychydig o gyfranogwyr a oedd rôl y SACDA wedi'i chreu er mwyn cynorthwyo gwasanaethau iechyd i gydymffurfio â'r amserlenni arfaethedig.

Nododd llawer o'r cyfranogwyr y byddai angen monitro a rheoleiddio ymlyniad wrth yr amserlenni. Fe ofynnon nhw a fyddai sicrwydd ansawdd a chosbau i'r rhai nad oeddent yn gweithredu o fewn yr amserlenni.

Cwestiwn 2 – Ydych chi'n cytuno â'r cyfnodau penodol arfaethedig ar gyfer cwblhau gweithredoedd gan:

- **ysgolion/SABau (35 diwrnod ysgol/yn ystod tymor SAB);**
- **awdurdodau lleol (12 wythnos ar gyfer penderfyniad pa un a oes gan blentyn/person ifanc ADY; 7 wythnos i ymateb i geisiadau am adolygu neu ailystyried penderfyniadau ysgolion)?**

Lleisiodd nifer o'r cyfranogwyr bryder ynghylch y cyfnodau penodol a oedd yn cael eu cynnig ar gyfer cwblhau camau gweithredu.

Dywedodd cyfranogwyr a oedd yn gweithio mewn ysgolion fod amrywiaeth eang o ffactorau a allai danseilio eu gallu i gydymffurfio â'r amserlen 35 diwrnod. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Yr amser sydd ar gael i'r rhai sy'n gweithredu fel CADY, yn enwedig lle maent yn cyflawni'r rôl ochr yn ochr ag ymrwymïadau addysgu. Nodwyd yn y cyddestun hwn fod gwahaniaethau amlwg yn yr amser y mae ysgolion yn ei ganiatáu i staff gyflawni rôl gyfredol y Cydlynnydd AAA. Nodwyd hefyd y cyflawnir rôl y Cydlynnydd AAA gan amrywiaeth o weithwyr proffesiynol, o bennaethiaid mewn rhai ysgolion i gynorthwywyr addysgu mewn ysgolion eraill.
- Y tueddiad bod nifer o adolygiadau'n cael eu trefnu gan ysgolion ar yr un pryd e.e. ar ddechrau'r flwyddyn academaidd ac yn dilyn nosweithiau rhieni.
- Dibyniaeth ysgolion ar fewnbwn asiantaethau allanol e.e. seicolegwyr addysg neu therapyddion iaith a lleferydd (ThIaLI) i'w galluogi i ddatblygu CDUiau. Dywedwyd fod atgyfeiriadau at Therapyddion iaith a Lleferydd yn cymryd tua saith wythnos mewn rhai ardaloedd. Nododd rhai fod amserlenni ar gyfer atgyfeiriadau at Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) hyd yn oed yn hwy – nododd un grŵp fod rhaid 'aros am ddwy flynedd'. Teimlid hefyd nad oedd digon o gapasiti seicolegwyr addysg o fewn y system.
- Yr angen achlysurol i gael mynediad at asesiadau/cynlluniau o wledydd eraill a threfnu iddynt gael eu cyfieithu mewn perthynas â phlant mewnffudwyr i'r DU.
- Gwahaniaeth barn rhwng ysgolion a rhieni yn arwain at anghytundebau ynghylch y math o Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) y gallai fod ei hangen.
- Gwahaniaeth barn achlysurol rhwng plant neu bobl ifanc a'u rhieni.

- Yr angen i amserlennu/neilltuo amser ar gyfer adolygiadau yn ogystal â phenderfyniadau newydd pa un a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY.
- Gallai darparu gwasanaethau asesu yn Gymraeg fod yn her mewn rhai ardaloedd.

Roedd cyfranogwyr o fyd addysg o'r farn bod yr amserlenni a oedd yn cael eu cynnig ar gyfer ysgolion yn gryn her os nad yn amhosibl. Roedd llawer hefyd yn meddwl mai hwy fyddai'n wynebu baich trymaf y pwysau, gan mai hwy yw'r sefydliad sydd fwyaf presennol yn y gymuned. Roedd cyfranogwyr yn teimlo y gallai'r rhieni fod yn ymwybodol o'r amserlenni newydd ac y byddent yn cael eu grymuso i holi'n rheolaidd am statws atgyfeiriad neu adolygiad eu plentyn.

Roedd cyfranogwyr a oedd yn gweithio mewn ysgolion hefyd yn cwestiynu pam fod gan awdurdodau lleol amserlenni hwy i ymateb nag oedd gan ysgolion.

Teimlai'r cyfranogwyr o awdurdodau lleol nad oedd yr amserlen 12 wythnos arfaethedig yn realistig; gyda rhai yn nodi na allant gyflawni'r amserlen 26 wythnos bresennol o ganlyniad i faterion capasiti o ran pobl ac arbenigedd. Yr oedd pryderon ynghylch dod â thimau amlddisgyblaethol at ei gilydd neu allu cael mynediad at adnoddau allweddol megis seicolegwyr addysg.

Roedd yr amserlenni 12 a 7 wythnos a oedd wedi'u nodi ar gyfer awdurdodau lleol yn peri dryswch i lawer o gyfranogwyr, a hwythau'n gofyn am fwy o eglurder ar y mater hwn. Hefyd, gofynnodd llawer o gyfranogwyr am fwy o fanylion ynghylch pryd mae'r 'cloc yn dechrau ac yn stopio tician', o ran pan fo mae plentyn yn dod i sylw'r sefydliad, pan fo hysbysiad ffurfiol yn digwydd, neu yng nghyd-destun trosglwyddo o ysgol i ysgol. Cododd nifer o gyfranogwyr broblemau gyda'r ffordd y mae'r broses bresennol ar gyfer adnabod AAA yn wahanol ym mhob ysgol. Dywedodd rhai cyfranogwyr o fyd addysg fod ganddynt ddyddiad cau mewnol ar gyfer hysbysu rheolwyr yr ysgol os tybid fod gan blentyn AAA ond y byddent wedyn yn trefnu'r holl adolygiadau o gynlluniau ar yr un pryd. Teimlent y byddai'r broses hon yn ei gwneud yn anodd ymlynu wrth yr amserlenni ar gyfer CDUiau.

Roedd pryder cyffredinol ynghylch gallu'r gwasanaethau iechyd i gyfrannu at y broses yn yr achosion hynny lle'r oedd angen y mewnbwn hwn, a hynny mewn da bryd er mwyn cydymffurfio â'r amserlenni arfaethedig. Dywedodd cynrychiolwyr o'r cyrff iechyd na fyddai amserlenni mewnol y gwasanaeth iechyd yn gyson ag amserlen 12 wythnos arfaethedig yr awdurdodau lleol. Roeddent yn teimlo bod angen gwell dealltwriaeth ynghylch ble y gallai'r amserlenni arfaethedig wrthdaro ag amserlenni presennol a beth fyddai effaith hynny.

Awgrymodd ychydig o gyfranogwyr a oedd yn gweithio ym maes addysg bellach y gallai defnyddio technoleg gefnogi trefniadau gweithio amlasiantaeth o fewn yr amserlenni arfaethedig. Dywedodd cyfranogwyr eu bod ar hyn o bryd yn defnyddio fideo-gynadledda ar gyfer eu cyfarfodydd i drafod CDUiau ar gyfer y rhai nad yw'n ymarferol neu'n angenrheidiol iddynt fod yn bresennol yn bersonol – h.y. y plentyn a'r teulu. Awgrymasant y dylai gweithwyr meddygol proffesiynol ddefnyddio fideo-gynadledda i gael gwared ar amser teithio a sicrhau mai'r gweithiwr proffesiynol sy'n gyfarwydd â'r plentyn neu'r person ifanc yw'r un sy'n cyflwyno yn y cyfarfod i drafod y CDU.

Roedd ychydig o'r cyfranogwyr yn teimlo y dylai'r amserlenni ymwneud ag anghenion y plentyn a difrifoldeb eu problemau. Teimlent fod pob plentyn yn wahanol, ac y dylai'r amserlenni adlewyrchu hynny. At hynny, roedd rhai cyfranogwyr yn pryderu ynghylch gorfod penderfynu ar anghenion plentyn o fewn amserlen ragnodedig gan y gallai hyn arwain at ystyriaeth lai trylwyr i'w ADY a'r ddarpariaeth y mae ei hangen arnynt. Nid oeddent am i gynnwys CDU y plentyn gael ei wanhau er mwyn cydymffurfio ag amserlen.

Cwestiwn 3 - Ydy'r eithriad cyffredinol sy'n gymwys yn achos cyfnodau penodol (h.y. nad yw'r gofyniad i gwblhau'r cam gweithredu yn berthnasol os yw'n anymarferol i'r corff perthnasol gydymffurfio o fewn y cyfnod penodol oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth) yn briodol?

Er bod y rhan fwyaf o gyfranogwyr yn derbyn y dylai'r rhesymau dros beidio â chydymffurfio ag amserlenni ymwneud â'r plentyn fel rheol, awgrymodd rhai cyfranogwyr y dylid darparu hefyd ar gyfer:

- Cydlynwyr ADY yn bod yn absennol o'r gwaith oherwydd salwch (fel yr awgrymodd rhai cyfranogwyr sy'n digwydd mewn amgylchiadau eraill mewn perthynas â gweithwyr iechyd proffesiynol?)
- Asiantaethau eraill yn peidio ag ymateb i geisiadau gan yr ysgol/ALI am wybodaeth neu gymorth arall o fewn yr amserlen a ragwelir (gan gynnwys seicolegwyr addysg)
- Rhieni yn peidio â rhoi caniatâd i asiantaethau eraill ddarparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani.

Heb ganllawiau clir ar yr hyn a allai fod yn gymwys fel 'eithriadau' neu sut i ddiffinio 'anymarferol', roedd cyfranogwyr yn meddwl ei bod yn debygol y byddai anghysondeb yn y ffordd y mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn ymddwyn. Awgrymodd cyfranogwyr eraill y gallai sefydliadau fanteisio ar yr eithriad cyffredinol trwy ei gymhwyso'n aml ac yn amhriodol. Awgrymodd cyfranogwyr y gallai hyn arwain at wanhau'r ddyletswydd i gydymffurfio ag amserlenni.

Pan na chydymffurfir ag amserlenni, roedd cyfranogwyr am wybod pwy fyddai'n gyfrifol. Roedd cyfranogwyr o fyd addysg yn pryderu y gallai'r oedi ddigwydd oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w rheolaeth, ond y gallai hyn gael ei gydnabod. Fe ofynnnon nhw a fyddai cosb a chyfrifoldeb pwy fyddai monitro hyn.

Roedd ychydig o'r cyfranogwyr o'r farn nad oedd angen cael mewnbwn gan y gwasanaeth iechyd (megis diagnosis) er mwyn nodi anghenion plentyn. Awgrymwyd y gellid datblygu CDU neu barhau i gefnogi plentyn o fewn yr amserlenni arfaethedig heb fewnbwn terfynol gan y gwasanaeth iechyd. Roedd mewnbwn gan y gwasanaeth iechyd yn dal i gael ei ystyried yn bwysig iawn, ond nid yn hanfodol yn y lle cyntaf.

Ym marn un cyfranogwr, os oedd y system wedi'i bwriadu i fod yn wirioneddol gydweithredol a phe bai pob grŵp o randdeiliaid yn barod i'w gweithredu gyda digon o adnoddau, dylai fod nifer fach iawn o resymau pam y dylai fod oedi.

Teimlai rhai cyfranogwyr yn gryf na ddylai fod dewis i optio allan; unigolion a oedd yn gweithio mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac mewn addysg bellach neu rieni dysgwyr ADY yn bennaf. Credai'r rhain y byddai caniatáu eithriadau yn mynd yn groes i'r cysyniad o bennu amserlenni ac i bob pwrpas yn ei wneud yn annilys.

4. Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar (Pennod 8)

4.1 Cyd-destun

Mae Pennod 8 o'r Cod Drafft ADY yn disgrifio'r dyletswyddau sy'n berthnasol i awdurdodau lleol mewn perthynas â phenderfyniadau ynghylch ADY, paratoi a chynnal CDUiau, a sicrhau'r DDdY sydd wedi'i chynnwys yn y CDU ar gyfer plentyn dan oedran ysgol gorfodol nad yw'n mynychu ysgol a gynhelir yng Nghymru. Mae hefyd yn darparu canllawiau ar ddyletswydd awdurdod lleol i ddynodi Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar (SAADY y Blynyddoedd Cynnar).

4.2 Strwythur

Roedd y gweithdy'n canolbwyntio ar ddau gwestiwn ymgynghori ynghylch canllawiau'r Cod Drafft ADY ar SAADY y Blynyddoedd Cynnar.

Cafodd y cyfranogwyr bapur briffio wedi'i baratoi gan Lywodraeth Cymru a oedd yn cynnwys paragraffau o'r Cod Drafft ADY sy'n ymwneud â SAADY y Blynyddoedd Cynnar.

Ar ôl sesiwn friffio fer gan yr hwylusydd allanol, bu'r cyfranogwyr yn trafod y cyntaf o'r ddau gwestiwn ymgynghori mewn grwpiau bach. Yna rhannodd y cyfranogwyr ymatebion eu grŵp gyda'r gweithdy cyfan mewn sesiwn a gymedrolwyd gan yr hwylusydd. Yna, bu'r cyfranogwyr yn trafod yr ail gwestiwn yn y grwpiau bach cyn rhannu ymatebion eu grŵp eto.

4.3 Ymatebion

Cwestiwn 1 – A yw'r canllawiau ar rôl SAADY y Blynyddoedd Cynnar yn ddigonol?

Credai'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr fod y canllawiau ar rôl SAADY y Blynyddoedd Cynnar yn ddigonol yn yr ystyr eu bod yn nodi swyddogaethau'r rôl yn eithaf manwl.

Cafwyd adborth cymysg gan y cyfranogwyr, fodd bynnag, wrth drafod a yw'r canllawiau'n cyfleu natur strategol arfaethedig y rôl yn ddigonol. Dywedodd rhai cyfranogwyr fod y canllawiau ar y rôl yn cyfleu iddynt y bwriedir i'r rôl fod yn strategol; dywedodd eraill y gellid dehongli bod rhai elfennau o'r canllawiau yn awgrymu bod gan y rôl swyddogaethau gweithredol yn ogystal â rhai strategol. Roedd adrannau penodol o'r canllawiau a nodwyd gan y cyfranogwyr hyn fel rhai a oedd yn peri dryswch yn cynnwys cyfrifoldeb SAADY y Blynyddoedd Cynnar am 'd(d)atblygu a chyflwyno hyfforddiant i leoliadau ar faterion sy'n ymwneud ag ADY' (Pennod 8, paragraff 8.47 yn y Cod Drafft ADY).

I ryw raddau, roedd yr adborth cymysg hwn ar y canllawiau fel pe bai'n adlewyrchu dehongliadau gwahanol y cyfranogwyr o ystyr y term 'strategol'. Roedd rhai cyfranogwyr, er enghraifft, o'r farn bod rhai o'r tasgau a nodwyd yn rhai 'gweithredol' ac yn credu bod eu cynnwys yn golygu na ellir disgrifio'r rôl fel un gyfan gwbl strategol. Fodd bynnag, roedd eraill o'r farn bod y tasgau yn 'weithredol' ond nid oeddent yn meddwl eu bod yn tanseilio natur strategol y rôl, tra bod eraill yn ystyried bod yr holl dasgau a nodwyd yn strategol.

Awgrymodd llawer o gyfranogwyr fod yr ystod o swyddogaethau sydd wedi'u cynnwys yn y canllawiau ar rôl SAADY y Blynnyddoedd Cynnar yn golygu y byddai'n swyddogaeth rhy fawr i un person. Roedd hyn yn arbennig o wir ymysg cyfranogwyr a nododd fod rhai swyddogaethau yn fwy gweithredol na strategol. Fe berodd y pryder hwn hefyd i rai cyfranogwyr gwestiynu a fyddai pob awdurdod lleol yn dynodi un person yn unig i'r rôl hon neu'n rhoi tîm i'w chyflawni. Pan drafodwyd hyn, roedd y cyfranogwyr yn fodlon ar y cyfan bod y canllawiau ar eu ffurf bresennol yn rhoi hyblygrwydd i awdurdodau lleol roi'r rôl ar waith yn y ffordd fwyaf priodol ar gyfer ardal pob awdurdod lleol.

Gwnaeth rhai cyfranogwyr awgrymiadau ynglŷn â beth arall ddylid ei gynnwys yn y canllawiau ar rôl SAADY y Blynnyddoedd Cynnar yn eu tyb hwy. Cynigiodd rhai cyfranogwyr y dylai'r canllawiau ar swyddogaeth gydweithio'r rôl gael eu cryfhau i bwysleisio y dylai SAADY y Blynnyddoedd Cynnar ddatblygu perthynas weithio agosach (mwy na chydweithio) â gweithwyr ieuchyd proffesiynol sy'n ymwneud â phlant. Roedd eraill am gael mwy o eglurder yn y canllawiau am y strwythur sefydliadol o amgylch y swyddog ac i bwy y byddai'n bwydo'n ôl. Roedd rhai cyfranogwyr am gael rhagor o fanylion am y rôl o ran plant yn symud o leoliadau nas cynhelir i leoliadau a gynhelir a hefyd yn fwy cyffredinol gwybodaeth bellach am gyswllt rhwng SAADY y blynnyddoedd cynnar a lleoliadau ysgol.

Nododd rhai cyfranogwyr a oedd yn staff mewn awdurdodau lleol fod y rôl hon neu rywbeth tebyg yn bodoli ar hyn o bryd yn eu hawdurdod lleol.

Cwestiwn 2 – A yw'r canllawiau ar brofiad ac arbenigedd SAADY y Blynnyddoedd Cynnar yn ddigonol?

Roedd gwahaniaeth barn ymhlith y cyfranogwyr wrth ystyried a yw'r canllawiau ar brofiad ac arbenigedd SAADY y Blynnyddoedd Cynnar yn ddigonol. Er bod nifer o gyfranogwyr yn cytuno â chynnwys y canllawiau, roedd ar nifer eisiau rhagor o fanylion a manylion mwy penodol ynglŷn â'r materion hyn. Yn arbennig, tynnodd cyfranogwyr sylw at y term 'yn ddigon cymwys' (pennod 8, paragraff 8.41 yn y Cod Drafft ADY) fel un yr oedd angen ei egluro.

Yn ogystal, cynigiodd rhai cyfranogwyr y dylai'r canllawiau nodi y dylai fod gan SAADY y Blynnyddoedd Cynnar — o ystyried natur strategol y rôl — brofiad penodol o weithgareddau strategol amrywiol, gan gynnwys:

- rheoli pobl;
- gweithio mewn systemau a sefydliadau sy'n her;
- gweithredu a dadansoddi llwyddiant strategaethau yn llwyddiannus; a
- chydweithio â gwahanol grwpiau.

Ar yr un pryd â gofyn am fanylion mwy penodol, fodd bynnag, awgrymodd y rhan fwyaf o gyfranogwyr fod angen elfen o hyblygrwydd ar awdurdodau lleol i allu dynodi'r person cywir ar gyfer eu sefyllfa.

Cyfeiriwyd mewn llawer o'r trafodaethau rhwng cyfranogwyr at yr angen i'r canllawiau alluogi awdurdod lleol sy'n dewis SAADY y Blynyddoedd Cynnar i daro cydbwysedd rhwng profiad ac arbenigedd/cymwysterau. Awgrymodd y rhan fwyaf o gyfranogwyr fod profiad mewn meysydd perthnasol yn ffactor pwysicach na chymwysterau — yn anad dim am fod llawer yn teimlo bod natur eang y rôl yn golygu y byddai awdurdod lleol yn dra annhebygol o allu dod o hyd i rywun â chymwysterau ar draws y meysydd gwaith.

Yn gysylltiedig â hyn roedd trafodaethau ynghylch y cefndir proffesiynol mwyaf priodol ar gyfer SAADY y Blynyddoedd Cynnar, er bod nifer o'r cyfranogwyr yn awgrymu na ddylai'r canllawiau fod yn fwy penodol ynglŷn â hyn. Roedd barn cyfranogwyr ar y cefndir proffesiynol mwyaf priodol yn amrywio — yn aml yn ôl eu cefndir proffesiynol hwy eu hunain — ond roedd y prif bwyntiau trafod yn ymwneud â'r cwestiwn i ba raddau y dylai SAADY y Blynyddoedd Cynnar fod â chefnidir ym myd addysg. Er bod llawer wedi cynnig y dylai SAADY y Blynyddoedd Cynnar fod â chefnidir ym myd addysg, pwysleisiodd rhai yr angen iddynt fod yr un mor hyddysg mewn strwythurau ieuchyd, tra bod eraill wedi awgrymu y dylent fod â chefnidir mewn datblygiad plant neu beidio â bod â chefnidir ym myd addysg o gwbl o anghenraid.

Mynegodd llawer o'r cyfranogwyr amheuon pa un a fyddai awdurdodau lleol yn gallu penodi unigolyn addas ar gyfer rôl SAADY y Blynyddoedd Cynnar oherwydd y profiad strategol eang a oedd yn ofynnol. Awgrymodd rhai cyfranogwyr y gellid llunio swydd-ddisgrifiad cenedlaethol neu ddogfen safonau gofynnol cenedlaethol i helpu awdurdodau lleol i recriwtio. Cynigiodd cyfranogwyr eraill y dylai awdurdodau lleol ganolbwyntio yn hytrach ar recriwtio rhywun ar gyfer y swydd cyn gynted â phosibl a sicrhau eu bod yn cael eu hyfforddi (gan dimau ieuchyd, gofal cymdeithasol ac addysg) cyn bod y broses o weithredu'r Ddeddf yn dechrau. Yn olaf, pwysleisiodd llawer o gyfranogwyr fod rhaid adlewyrchu natur strategol y rôl a'r profiad helaeth y mae ei angen yng nghyflog SAADY y Blynyddoedd Cynnar.

5. Penderfyniadau Awdurdodau Lleol ynghylch Lleoliadau Arbenigol Ôl-16 (Pennod 12)

5.1 Cyd-destun

Mae Pennod 12 o'r Cod Drafft ADY yn nodi'r darpariaethau yn y Ddeddf sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol, os yw'n penderfynu bod person ifanc nad yw wedi'i gofrestru fel disgybl mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru nac wedi'i gofrestru fel myfyriwr mewn SAB yng Nghymru, ond y mae'n gyfrifol amdano, yn rhywun ag ADY, baratoi a chynnal CDU ar gyfer y person hwnnw dan yr amgylchiadau canlynol:

- os yw'n penderfynu yn unol â rheoliadau (sydd i'w gwneud o dan adran 46 o'r Ddeddf) bod angen iddo baratoi a chynnal CDU i ddiwallu anghenion rhesymol y person ifanc am addysg neu hyfforddiant; ac
- os yw'r person ifanc yn rhoi cydsyniad i baratoi a chynnal y cynllun.

5.2 Strwythur

Roedd y sesiynau gweithdy cychwynnol ar y pwnc hwn yn ceisio archwilio'r cwestiwn ynglŷn â pha ffactorau a meini prawf ddylid eu cynnwys mewn rheoliadau a'u defnyddio i benderfynu a oes gan berson ifanc angen rhesymol am addysg a hyfforddiant. Wedi hynny diwygiwyd y dull cwestiynu agored hwn i ganolbwyntio ar ystyried ai'r ffactorau a'r meini prawf a nodir yn y Cod Drafft ADY yw'r rhai cywir. Mae'r Cod Drafft ADY yn awgrymu mai'r brif ystyriaeth y dylai awdurdod lleol roi sylw iddi yw 'a oes posibilrwydd realistig y bydd person ifanc yn cyflawni amcan dymunol mewn cyfnod o amser rhesymol trwy ddilyn cwrs addysg neu hyfforddiant'.

5.3 Ymatebion

Fel trosolwg, roedd cyfranogwyr yn y gweithdai ar y cyfan yn cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau yn y maes hwn. Yn arbennig, teimlai llawer o gyfranogwyr y byddai'r broses o benderfynu a oedd gan berson ifanc angen rhesymol am addysg a hyfforddiant yn oddrychol iawn. Roedd pryderon y byddai diffyg rheoliadau a chanllawiau eglur yn golygu y byddai'n rhaid datblygu cyfraith achosion i egluro beth fyddai'n gyfystyr ag angen rhesymol am addysg a hyfforddiant. Cynigiwyd y byddai rhagor o gyfarwyddyd yn cynorthwyo ymarferwyr i wneud achos amddiffynadwy, ond roedd cyfranogwyr yn ansicr ar y cyfan sut y byddai'n edrych.

Posibilrwydd Realistig y Bydd yn Cyflawni Amcan Dymunol

Cafodd y cwestiwn beth sy'n gyfystyr ag amcan dymunol ei drafod yn helaeth ar draws pob sesiwn. Pwynt allweddol a wnaed gan gyfranogwyr oedd na ddylai amcan

dymunol ymwneud o anghenraid â chynnydd o ran dysgu yn nhermau addysg brif ffrwd, ond y gallai ymwneud â:

- Hunanreoleiddio i ymgysylltu â'r gymuned (yr ystyrid ei fod yn hollbwysig)
- Y gallu i gynnal sgwrs, neu sefydlu perthynas
- Caffael sgiliau byw'n annibynnol
- Gwella ansawdd bywyd

Fodd bynnag, roedd rhai cyfranogwyr yn cwestiynu a yw cymorth i ddatblygu sgiliau bywyd ar gyfer dysgwyr ADY yn rhan o gylch gorchwyl addysg, iechyd ynteu gofal cymdeithasol.

Gwnaeth cyfranogwyr y pwynt y gallai fod yn amlwg iawn mewn rhai achosion nad oes modd cyflawni amcan dymunol, ond y bydd angen arweiniad proffesiynol mewn achosion eraill. Roedd colli rôl ar gyfer Gyrfa Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau yn peri pryder i nifer o gyfranogwyr, a ofynnodd sut y byddai awdurdodau lleol yn gallu gwneud penderfyniadau heb yr wybodaeth arbenigol y maent yn ei darparu. Dywedwyd fod yr un peth yn wir am gynorthwyo pobl ifanc yn ddigonol i wneud penderfyniad yn annibynnol ar farn neu ddymuniadau eu rhieni.

Ar hyn o bryd, Llywodraeth Cymru sy'n cael ceisiadau am leoedd mewn colegau arbenigol ac roedd rhai cyfranogwyr o'r farn bod y llwybr hwn yn fwy diduedd nag un lle mae awdurdodau lleol, y gallai eu penderfyniadau fod yn fwy seiliedig ar gyllideb, yn gweithredu fel y corff sy'n penderfynu. Roedd lleiafrif o'r cyfranogwyr yn pryderu y gallai penderfyniadau gael eu llywio gan ffactorau y tu hwnt i anghenion rhesymol y dysgwr – er enghraifft gallai'r awydd i leihau ffigyrau'r Rhai Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth Na Hyfforddiant ysgogi penderfyniad i ddyfarnu lleoliad, hyd yn oed os nad oedd yn realistig cyflawni amcan.

Awgrymodd nifer o gyfranogwyr fod dysgwyr wedi cael eu cynorthwyo yn y gorffennol i fynychu colegau preswyl yn Lloegr am dair blynedd heb unrhyw amcan dysgu, ond i 'fodloni awydd rhieni i'w plentyn gael y profiad cywir, nid y sgiliau sy'n deillio ohono'. Felly roedd cyflwyno fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau yn rhywbeth i'w groesawu.

Mynegodd rhai cyfranogwyr y farn hefyd y gall fod gormod o bwyslais ar gynnydd uwch ar gyfer dysgwyr; gan awgrymu y gall cymhwyster Lefel Mynediad 1 fod yn gyflawniad sylweddol i rai dysgwyr ac y dylai darpariaeth i'r ochr neu ddarpariaeth portffolio gael ei hariannu hefyd.

Teimlai rhai cyfranogwyr ei bod yn bwysig taro cydbwysedd rhwng y tebygolrwydd o gyflawni amcan dymunol ar y naill law a chost ariannu lleoliad ar y llaw arall, ac y dylid defnyddio cyllid yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl.

Yn hyn o beth, roedd barn leiafrifol ymhlith y cyfranogwyr y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu rhestr o ddeilliannau dysgu cymeradwy a fyddai'n gymwys ar gyfer cymorth, gyda throthwyon cyflawni cydnabyddedig.

Roedd un pwynt pwysig a godwyd gan gyfranogwyr yn ymwneud â rheoli disgwyliadau – yn enwedig disgwyliadau rhieni. Roeddent yn teimlo y gallai'r

canllawiau arfaethedig yn y Cod Drafft ADY gael eu dehongli fel hawl i fynychu AB hyd at 25 oed pa gynnydd bynnag y mae'r dysgwr yn ei wneud.

Cyfnod o Amser Rhesymol

Bu cryn drafod ynghylch beth sy'n gyfystyr â chyfnod rhesymol i berson ifanc gyflawni amcan. Barn gref oedd y dylai'r hyn sy'n gyfystyr â chyfnod rhesymol o amser fod yn briodol i amgylchiadau'r dysgwr a natur yr amcan ac nid, fel yr oedd cyfranogwyr yn gyffredinol yn ei gasglu o eiriad y Cod Drafft ADY (ym mharagraff 12.27), yn gyfnod penodedig o ddwy flynedd. Mynegodd nifer o gyfranogwyr bryder ynghylch y gymhariaeth â dysgwyr prif ffrwd yn y Cod Drafft ADY, gan ddadlau y byddai darparu mynediad cyfartal yn y cyd-destun hwn yn golygu rhoi cyfnod hwy o gymorth i ddysgwyr ag ADY na dysgwyr eraill.

Un o'r pryderon allweddol ymhlith cyfranogwyr oedd yr angen i ystyried amgylchiadau unigol wrth ffurfio barn, a chyfeiriwyd at ystod eang o wahanol enghreifftiau. Roedd y rhain yn amrywio o'r rhai sy'n mynd i AB o ysgolion arbennig am ddwy flynedd cyn symud ymlaen i leoliadau eraill, i'r rhai a allai fod mewn AB am saith neu wyth mlynedd, a hwythau'n gallu gwneud cynnydd araf hyd at Lefel 3 neu'r tu hwnt yn ystod y cyfnod hwnnw. Awgrymodd cyfranogwyr y byddai'n anodd pennu cyfnod o amser rhesymol o'r dechrau, o ystyried mai dim ond ar ôl dechrau mewn addysg bellach y bydd rhai dysgwyr o bosibl yn dechrau dangos cynnydd gwirioneddol – pe bai eu cyllid yn cael ei dynnu'n ôl byddent 'mewn twll'. Awgrymwyd y dylid cynnal trafodaeth gyda'r person ifanc, y sefydliad a'r teulu i nodi a ydynt yn cyflawni rhywbeth ychwanegol ac a ddylid darparu cymorth pellach.

Roedd anghyfarllwch canfyddedig hefyd rhwng y rhai sy'n aros mewn ysgol arbennig tan eu bod yn 19 oed ac yna'n gallu cael mynediad at ddwy flynedd arall mewn AB, nes eu bod yn 21, a'r rhai sy'n gadael yr ysgol yn 16 oed ac nad ydynt ond yn cael eu hariannu mewn addysg bellach nes eu bod yn 18 oed.

Roedd llawer o'r cyfranogwyr yn pryderu 'ein bod yn paratoi plant i fethu os byddwn yn diffinio pa mor hir y dylai ei gymryd i gyflawni'r amcan dymunol', gan ddweud bod dysgwyr yn gwneud cynnydd ar wahanol gyflymder ac y bydd llawer o ddysgwyr ag ADY yn datblygu galluoedd dysgu ar gyfradd arafach ac yn hwyrach na dysgwyr eraill. Roedd pryderon eraill ynglŷn â'r rhai ag amgylchiadau arbennig, yn enwedig achosion lle'r oedd dysgwr wedi datblygu ADY yn ddiweddar (er enghraifft o ganlyniad i niwed i'r ymennydd yn dilyn damwain).

Cwrs Addysg neu Hyfforddiant

O ran argaeledd cwrs addysg neu hyfforddiant, mynegodd cyfranogwyr bryderon am amrywioldeb y ddarpariaeth a gynigir yn lleol, gan ddibynnu ar eu lleoliad yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu dysgwyr i fynychu darpariaeth arbenigol breswyl i ddiwallu anghenion ychwanegol lle nad oes un ar gael yn lleol. Teimlai'r cyfranogwyr nad dyma'r dewis cywir bob amser i baratoi'r person ifanc i ddychwelyd i'w gymuned rywbryd yn ddiweddarach, a'i bod felly'n ddefnyddiol gosod rhai terfynau o ran y deilliant.

6. Iechyd a Rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (Pennod 15)

6.1 Cyd-destun

Mae Pennod 15 o'r Cod Drafft ADY yn nodi'r dyletswyddau a osodir ar gyrff iechyd a phersonau perthnasol eraill o dan Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae hefyd yn rhoi canllawiau ar rôl y SACDA mewn Byrddau Iechyd Lleol a sut y gall gyrff iechyd gefnogi'r broses o nodi ADY a gwneud darpariaeth ddysgu ychwanegol.

Mae'n rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol ddynodi swyddog i fod yn gyfrifol am gydgyssylltu swyddogaethau'r bwrdd iechyd mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag ADY. Adwaenir y person hwnnw fel y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg.

Rhaid i'r SACDA naill ai fod yn ymarferydd meddygol cofrestredig neu'n nyrs gofrestredig neu'n weithiwr iechyd proffesiynol arall. Rhaid i'r swyddog a ddynodir yn SACDA gan y Bwrdd Iechyd Lleol fod yn un y mae'n ei ystyried yn ddigon cymwys a phrofiadol ym maes darparu gofal iechyd i blant a phobl ifanc ag ADY.

Hefyd ym Mhennod 15 ceir cyfnod arfaethedig (a fydd i'w ragnodi mewn Rheoliadau) pan fo'n rhaid i gorff iechyd neu berson perthnasol arall gydymffurfio â chais am wybodaeth neu gymorth arall – sef bod rhaid iddynt wneud hynny'n brydlon a beth bynnag o fewn y cyfnod o 6 wythnos ar ôl i'r person gael y cais (yn amodol ar eithriadau). Cynigir cyfnod tebyg o 6 wythnos mewn perthynas â dyletswydd corff GIG i ymateb i gais gan awdurdod lleol neu SAB ei fod yn ystyried a oes unrhyw driniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o fod o fudd wrth ymdrin ag ADY plentyn neu berson ifanc.

6.2 Strwythur

Darparwyd papur briffio wedi'i baratoi gan Lywodraeth Cymru i'r cyfranogwyr a hwnnw'n cynnwys paragraffau a gymerwyd o'r Cod Drafft ADY sy'n ymwneud ag iechyd a'r SACDA.

Roedd y gweithdy'n canolbwyntio ar dri chwestiwn ymgynghori ynghylch canllawiau'r Cod Drafft ADY ar y SACDA ac amserlenni ar gyfer ymateb i geisiadau.

Ar ôl sesiwn friffio fer gan yr hwylusydd allanol, bu'r cyfranogwyr yn trafod y cyntaf o'r tri chwestiwn ymgynghori mewn grwpiau bach. Yna rhannodd y cyfranogwyr ymatebion eu grŵp gyda'r gweithdy cyfan mewn sesiwn a gymedrolwyd gan yr hwylusydd. Yna bu'r cyfranogwyr yn trafod yr ail gwestiwn yn y grwpiau bach cyn rhannu ymatebion eu grŵp eto, ac yna'r trydydd cwestiwn ac adborth.

6.3 Ymatebion

Cwestiwn 1 – Pa gyfrifoldebau ddylai gael eu cynnwys yn rôl y SACDA?

Credai llawer o'r cyfranogwyr y dylai rôl y SACDA olygu gweithio'n strategol ac mewn modd cyson ar draws pob Bwrdd Iechyd Lleol. Awgrymodd llawer o gyfranogwyr y dylai pob SACDA ddod at ei gilydd ar gyfer hyfforddiant ar y cyd, gwaith ar y cyd i gynllunio prosesau gweithredu ac i gael cymorth i gyflawni, er mwyn sicrhau bod arfer da yn cael ei gymhwyso'n gyson. Awgrymwyd y byddai o gymorth cael un swydd-ddisgrifiad ar gyfer pob SACDA ledled Cymru.

Credai llawer o'r cyfranogwyr y dylid penodi'r SACDA ar lefel uwch swyddog gweithredol o fewn y Bwrdd Iechyd Lleol ac y dylai adrodd wrth y Bwrdd. Awgrymodd nifer fach o gyfranogwyr y dylid ychwanegu'r cyfrifoldebau at gylch gwaith y Cyfarwyddwr Therapi o fewn byrddau iechyd lleol. Lleisiodd eraill bryder, gan ddweud y byddai'n well ganddynt petai'r rôl yn un bwrpasol yn hytrach na bod yn ychwanegiad at rôl arall. Awgrymodd cyfranogwyr eraill y byddai'n well i'r SACDA fod wedi'i leoli o fewn gwasanaethau plant.

Roedd cryn bryder bod y cylch gorchwyl a oedd yn cael ei gynnis ar gyfer rôl y SACDA yn eang iawn, ac y byddai'n ofynnol iddynt weithredu ar lefel strategol a gweithredol gyda chymorth tîm. Yn aml, awgrymodd cyfranogwyr fod angen datblygu system briodol i gefnogi rôl yr unigolyn ac i sicrhau y byddai llinell gyfathrebu briodol rhwng y SACDA a staff rheng flaen. Awgrymodd rhai cyfranogwyr fod angen i'r Cod ddatgan y byddai angen tîm gweithredol ar bob SACDA i gyflawni'r swyddogaethau lefel is ar eu rhan. Teimlent fod y cylch gorchwyl a oedd yn cael ei awgrymu ar y pryd yn rhy eang i un person ei gyflawni ar ei ben ei hun.

Roedd cyfranogwyr yn teimlo y dylai cyfrifoldebau 'mewnol' y SACDA gynnwys:

- sicrhau yr ymlynir wrth yr amserlenni a bennwyd
- hyrwyddo'r Cod ar lefel uwch yn eu sefydliad
- sicrhau bod dull cyson yn cael ei fabwysiadu ar draws y Bwrdd Iechyd Lleol – er nad yw'n glir pa bŵer neu awdurdod fydd ganddynt i sicrhau y cyflawnir hyn
- ymdrin â chwynion a thribiwnlysoedd
- gweithredu systemau a gweithdrefnau priodol er mwyn ei gwneud yn bosibl cyflawni'r dyletswyddau
- monitro i weld a oedd y Bwrdd Iechyd Lleol yn cyflawni ei ddyletswyddau
- adeiladu ar arfer da presennol o ran prosesau a strwythurau.

Datgelodd y gweithdai safbwyntiau cyferbyniol ynghylch rôl allanol y SACDA. Awgrymodd rhai cyfranogwyr y dylent weithredu fel cyswllt strategol allweddol ar gyfer awdurdodau lleol a sefydliadau partner eraill. Cynigiodd nifer o'r cyfranogwyr y dylid sefydlu gweithgorau strategol gyda chyfuniad o gynrychiolwyr o Fyrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol i sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng asiantaethau.

Rhybuddiwyd na ellid disgwyl i'r SACDA gyflawni'r holl ddyletswyddau gweithredol a gynigir yn y Cod Drafft ADY. Awgrymodd llawer o'r cyfranogwyr fod angen i'r Cod

egluro ymhellach sut y bydd y gwahanol dasgau gweithredol a strategol arfaethedig yn cael eu cyflawni.

Dywedodd cyfranogwyr yn aml na ddylai'r SACDA ymwneud â llwythi achosion unigol, er bod nifer fach o gyfranogwyr wedi dehongli'r rôl fel un a oedd yn cynnwys gwneud hynny. Roedd cyfranogwyr a oedd yn gweithio mewn ysgolion yn dymuno cael eglurhad pa un a fyddai gan y SACDA berthynas uniongyrchol ag ysgolion ai peidio – nid oeddent yn glir ynghylch natur y cyswllt rhyngddynt hwy a'r SACDA. Roedd hefyd yn aneglur i nifer o gyfranogwyr a fyddai'r SACDA yn gweithredu fel pwynt cyswllt i rieni ac awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol egluro 'pwy all gysylltu â'r SACDA, ac at ba ddiben'.

Nid oedd llawer o gyfranogwyr yn glir faint o adnoddau y bydd pob Bwrdd Iechyd yn eu dyrannu i gyflawni rôl SACDA – mewn un achos mae SACDA eisoes wedi'i benodi a dim ond dau ddiwrnod a neilltuir i'r rôl ar hyn o bryd. Teimlai cyfranogwyr eraill y byddai angen i'r rôl fod yn un strategol, lawn-amser gyda thîm gweithredol i roi cymorth.

Nododd ychydig o gyfranogwyr gyfrifoldebau ychwanegol y dylai rôl y SACDA eu cynnwys:

- rhannu gwybodaeth gyda phartïon perthnasol (awdurdodau lleol/ysgolion/SABau)
- 'rheoli rhestrau aros' o ran cyflymu rhai atgyfeiriadau
- rheoli cyllideb wedi'i chlustnodi
- cyfeirio cyfrifoldebau rhwng gweithwyr iechyd proffesiynol
- canfod a yw ysgolion/SABau wedi gwneud popeth a allant i sicrhau bod atgyfeiriadau at weithwyr iechyd proffesiynol yn briodol.

Cwestiwn 2 – Pa brofiadau ac arbenigedd perthnasol ddylai fod gan y SACDA er mwyn sicrhau bod y rôl yn strategol?

Awgrymwyd yn aml y byddai ar bob SACDA angen profiad ar lefel strategol a gweithredol. Y consensws barn oedd y dylent feddu ar brofiad neu ddealltwriaeth am wasanaethau iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys gwasanaethau therapi iechyd megis iechyd meddwl plant a'r glasoed, seicoleg addysg, therapi galwedigaethol a therapi iaith a lleferydd, er mwyn deall natur gydweithredol y gwaith. Dywedodd rhai cyfranogwyr hefyd fod angen i gefndir deiliad y swydd fod yn ehangach na gweithio gyda phlant o oedran ysgol, o gofio bod y Cod Drafft ADY yn cwmpasu plant a phobl ifanc 0 i 25 oed.

Dadleuodd llawer o gyfranogwyr ei bod yn bwysicach i ddeiliad y swydd fod â chefnidir clinigol yn hytrach na chefnidir meddygol. Cwestiynwyd yr angen am y term 'meddygol' sydd wedi'i gynnwys o fewn y Cod Drafft ADY ac awgrymodd rhai y dylid rhoi llai o ffocws ar hyn.

Roedd nifer o gyfranogwyr hefyd o'r farn bod lefel eu cyfrifoldeb a'u rheng o fewn y bwrdd iechyd lleol yn hollbwysig. Awgrymodd rhai cyfranogwyr sgiliau a phriodoleddau penodol y dylai'r SACDA fod yn meddu arnynt; gan gynnwys;

- bod yn gyfathrebwr da
- sgiliau trefnu
- y gallu i weithio ar draws ffiniau sefydliadol.

Cwestiwn 3 – A yw'r cyfnod arfaethedig o 6 wythnos yn amser priodol ar gyfer y canlynol: i bersonau perthnasol gydymffurfio â chais awdurdod lleol am wybodaeth neu gymorth arall (dan adran 65 o Ddeddf 2018); ac i gorff y GIG hysbysu eraill ynghylch canlyniad atgyfeiriad ato (dan adran 20 o Ddeddf 2018) o ran pa un a oes unrhyw driniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o fod o fudd wrth fynd i'r afael ag ADY plentyn neu berson ifanc.

Ar y cyfan, roedd cyfranogwyr yn croesawu'r cynnig i nodi cyfnod penodol i gorff y GIG gydymffurfio â chais gan awdurdod lleol ac i hysbysu eraill ynghylch canlyniad atgyfeiriad ato.

Dywedwyd fod egwyddor mabwysiadu cyfnod penodol yn gywir ac yn briodol, yn enwedig o safbwynt diwallu anghenion plant a phobl ifanc. Roedd llawer o gyfranogwyr yn teimlo bod perygl y byddai plant yn 'mynd yn sownd yn y system' pe na bai amserlenni wedi'u pennu ac y byddai pennu amserlenni clir yn rhoi ffocws i waith sefydliadau partner. Dywedodd cyfranogwyr fod y Cod Drafft ADY yn ddefnyddiol yn yr ystyr ei fod yn gwneud anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn greiddiol ac yn ei gwneud yn glir i rieni beth allant ei ddisgwyl. Bydd hefyd yn helpu i roi neges glir i rieni am yr hyn y gallant ei ddisgwyl o'r broses. Roedd llawer yn pryderu, fodd bynnag, y byddai cyflwyno'r cyfnod penodol yn codi disgwyliadau ymhlith rhieni ac na fyddai'r disgwyliad hwn yn cael ei fodloni (oherwydd materion a amlinellir ym mharagraff 6.24).

Cyflëwyd safbwyntiau cymysg wrth ystyried a oedd y cyfnod arfaethedig o chwe wythnos yn briodol. Dadleuodd cyfranogwyr yn aml fod y cyfnod hwn yn briodol os oedd y canlynol yn wir:

- os oedd y plentyn eisoes yn hysbys i'r GIG
- os oedd lefel yr ymateb a oedd yn ofynnol yn eithaf syml, h.y. cydnabod yr atgyfeiriadau a gafwyd
- os oedd angen yr ymateb gan wasanaethau therapi penodol yn y GIG – roedd gan rai, fel therapyddion lleferydd, fwy o gapasiti i ymateb nag eraill er bod yr enghreifftiau a nodwyd yn amrywio o un Bwrdd Iechyd Lleol i'r llall.

Yn ôl rhai cyfranogwyr, os mai'r unig ofyniad oedd cydnabod yr atgyfeiriadau a gafwyd neu hyd yn oed ddarparu ymateb symbolaidd i'r atgyfeiriad, yna gallai corff y GIG gyflawni hyn o fewn y cyfnod o chwe wythnos. Fodd bynnag, pe bai'n ofynnol darparu ymateb mwy ystyrlon, byddai'n afrealistig disgwyl i hyn gael ei gyflawni o fewn y cyfnod o chwe wythnos.

Ar y cyfan, fodd bynnag, roedd yr ymarferwyr iechyd o'r farn bod y cyfnod o chwe wythnos yn amserlen rhy fyr yng ngoleuni'r canlynol:

- yr amseroedd aros presennol ar gyfer asesiadau clinigol -dywedwyd y gallai plentyn aros 18 mis am asesiad awtistiaeth mewn rhai ardaloedd
- cydsyniad rhiant i rannu gwybodaeth gydag ysgolion, sy'n dwysáu'r broblem o ran hyd rhestrau aros
- yr angen i orfod blaenoriaethu achosion eraill, mwy taer e.e. asesu plant â materion diogelu, ac yna plant â materion iechyd difrifol cyn materion ADY wrth bennu llwythi achosion pediatregwyr. Roedd rhai cyfranogwyr yn pryderu y byddai'r amserlenni'n gweithredu fel cymhelliad gwrthnysig ac yn mynd yn groes i egwyddorion cefnogi'r rhai â'r angen mwyaf yn gyntaf
- dywedodd ymarferwyr iechyd fod diffyg capasiti o fewn y Bwrdd Iechyd Lleol i gynnal asesiad ystyrlon o blentyn. Mae pwysau sylweddol ar rai galwedigaethau e.e. therapïau iechyd
- roedd ymarferwyr iechyd yn arbennig yn pryderu hefyd y byddai'r broses a bennwyd yn canolbwyntio'r sylw ac adnoddau ar faterion proses ar draul gwasanaethau rheng flaen h.y. byddai angen dyrannu adnoddau i ffwrdd o'r gwasanaethau therapi i waith monitro ac adrodd

Gofynnodd llawer o'r cyfranogwyr beth oedd y sbardun ar gyfer y cyfnod o chwe wythnos, o gofio ei bod yn cymryd peth amser i'r atgyfeiriad sydd wedi dod i law gael ei ddyrannu i'r unigolyn priodol o fewn corff y GIG. Roedd cyfranogwyr a oedd yn gyfarwydd iawn â'r cynigion yn y Cod Drafft ADY yn croesawu'r ffaith y byddai'r cyfnod o chwe wythnos yn dechrau pan fyddai'r therapydd yn cael yr atgyfeiriad gyntaf. Awgrymodd cyfranogwyr y gallai fod o fudd cyfleu ac atgyfnerthu hyn ymysg ymarferwyr. Dywedwyd hefyd y byddai'n fuddiol pe bai'r broses atgyfeirio'n un electronig.

At ei gilydd, roedd awydd ymysg ymarferwyr iechyd i weld mwy o gysondeb â'r cyfnod o 14 wythnos a nodir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau iechyd eraill.

Awgrymodd ychydig o gyfranogwyr fod dangosyddion perfformiad a thargedau'r GIG yn rhwystr posibl i waith amlasiantaeth effeithiol. Byddai angen i'r terfynau amser arfaethedig gael eu hymgorffori yn nhargedau'r GIG er mwyn iddynt gael eu cymryd o ddifrif. Cyfraniad cyffredin gan y cyfranogwyr oedd bod blaenoriaethau (a Dangosyddion Perfformiad Allweddol) iechyd ac addysg yn wahanol a'i bod yn anorfod mai'r rhain fydd yn llywio ymddygiadau.

7. Cydlynnydd

7.1 Cyd-destun

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ('y Ddeddf') yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru ddynodi person, neu fwy nag un person, i fod yn gyfrifol am gyd-lynu darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) ar gyfer disgyblion neu fyfyrwyr ag ADY. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r bobl hyn gael eu galw'n Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol ('CADY').

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ddrafft o Reoliadau Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2019 ('y Rheoliadau CADY drafft') sy'n rhagnodi'r cymwysterau a'r profiad y mae eu hangen i fod yn CADY a'r swyddogaethau a osodir ar CADY.

Mae Pennod 24 o'r Cod Drafft ADY yn nodi gwybodaeth allweddol ar gyfer partïon â buddiant ynghylch rôl y CADY. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldebau a disgwyliadau cyffredinol ar gyfer CADY ac ystyriaethau, lle y bo'n briodol, ynghylch pa un a oes gan unigolyn y profiad gofynnol i gyflawni'r rôl ai peidio. Mae'r bennod hefyd yn cyfeirio at ofynion cyfreithiol i fod yn CADY (h.y. y gofynion a ragnodir o dan y Rheoliadau CADY drafft).

7.2 Strwythur

Roedd y gweithdy'n canolbwyntio ar dri chwestiwn ymgynghori ynglŷn â chanllawiau'r Cod Drafft ADY ar y CADY.

Darparwyd papur briffio wedi'i baratoi gan Lywodraeth Cymru i'r cyfranogwyr a hwnnw'n cynnwys paragraffau a gymerwyd o'r Cod Drafft ADY sy'n ymwneud â'r CADY.

Ar ôl sesiwn friffio fer gan yr hwylusydd allanol, bu'r cyfranogwyr yn trafod y cyntaf o'r tri chwestiwn ymgynghori mewn grwpiau bach. Yna rhannodd y cyfranogwyr ymatebion eu grŵp gyda'r gweithdy cyfan mewn sesiwn a gymedrolwyd gan yr hwylusydd. Wedyn bu'r cyfranogwyr yn trafod yr ail gwestiwn yn y grwpiau bach cyn rhannu ymatebion eu grŵp eto, ac yna'r trydydd cwestiwn ac adborth.

7.3 Ymatebion

Cwestiwn 1 – A yw rôl arfaethedig y CADY yn briodol?

Roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yn croesawu ffocws mwy strategol y rôl. Roedd teimlad bod y cyfrifoldeb a'r llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â rôl y CADY, yn enwedig o ran ymdrin â disgyblion tariff uchel ag ADY yn gwneud y penderfyniad hwn yn briodol. Roedd symud tuag at swyddogaeth fwy strategol hefyd yn rhoi gwell statws i'r rôl, gan alluogi'r unigolyn i ofyn am gyfraniadau gan staff ehangach yr ysgol.

O ran bod y CADY yn rhan o'r UDA, roedd safbwyntiau gwahanol ar y mater hwn. At ei gilydd, y farn oedd y dylai fod yn ofyniad cyfreithiol bod y CADY yn aelod o'r UDA oni bai bod rheswm da iawn dros wneud fel arall (roedd yr enghreifftiau a ddarparwyd yn cynnwys materion sy'n ymwneud â maint bach neu strwythur yr ysgol, neu aelod presennol o UDA sydd â chefnidir cryf ym maes ADY). Holodd rhai pam y byddai unrhyw un ymgymryd ag atebolrwydd am ADY os nad oedd ganddynt y gallu i fod yn rhan o drafodaethau ynghylch goblygiadau o ran y gyllideb ac adnoddau yn yr UDA a dylanwadu ar y trafodaethau hynny. Dywedodd llawer o gyfranogwyr fod y CADY/CAAA eisoes yn aelod o'r UDA yn y mwyafrif o achosion.

At ei gilydd, roedd cyfranogwyr a oedd yn gweithio mewn ysgolion yn teimlo y dylai aelodaeth o'r UDA fod yn orfodol. Oherwydd y gwahanol strwythurau mewn SABau, teimlid nad oedd hyn yn briodol yn y lleoliadau hynny. Yn hytrach, roedd y CADY mewn SABau yn tueddu i fod yn swyddi llawn-amser, gyda chyfrifoldeb am y gyllideb ADY ar draws campysau a chan fod yn atebol i Bennaeth Cynhwysiant neu Ddirprwy Bennaeth. Teimlid bod hyn yn briodol.

Roedd eraill yn deall ac yn derbyn y rhesymeg a oedd yn sail i'r opsiwn o gael 'mynediad at/cyswllt uniongyrchol â'r' UDA, gan ystyried materion sy'n ymwneud â maint a natur wledig. Awgrymodd llawer y byddai'r elfen hon o'r Cod Drafft ADY yn mynd yn afraid dros amser wrth i'r nifer fach o gydlynwyr AAA anghymwysedig presennol symud ymlaen o'u rolau presennol.

I rai cyfranogwyr roedd y rôl yn golygu mwy o gyfrifoldeb a chododd ychydig ohonynt bryderon ynghylch y pwysau uwch y byddai CADY yn eu hwynebu o ganlyniad i fod â chyfrifoldebau cyfreithiol. Roedd cyfranogwyr yn awyddus i sicrhau bod CADY yn cael eu diogelu gyda'r atebolrwydd terfynol yn cael ei ysgwyddo gan y pennaeth, ac roeddent am i hyn gael ei wneud yn glir yn y Cod/Rheoliadau.

Dadleuodd llawer o gyfranogwyr hefyd y dylai'r cyfrifoldebau a'r statws mwy strategol a roddir i rôl y CADY arwain at gydnabyddiaeth ariannol, gyda thaliad Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu (CAD) yn cael ei ddarparu fel arfer safonol. Gan bod y rôl a'r dyletswyddau newydd yn dangos yn glir bod rôl y CADY yn un arwain/rheoli dylid ei dyfarnu felly.

Roedd pryder bod y gofyniad am 'amser digonol' i gyflawni'r rôl yn rhy amwys ac y byddai cyflawni'r rôl heb gael amser y tu allan i'r ystafell ddosbarth yn ei gwneud yn anodd. Un awgrym oedd y gellid newid hyn i 'amser rheolaidd a digonol'. Awgrym arall oedd bod angen nodi'n benodol faint o amser (e.e. lleiafswm o 10% fel sy'n digwydd ar hyn o bryd gyda CPA, yr oedd rhai o'r farn ei fod yn gosod cysail ar gyfer amodi hyn). Awgrym arall oedd y gellid newid yr ail frawddeg ym mharagraff 24.5 i 'Rhaid i bennaeth y lleoliad addysg sicrhau bod y CADY yn cael ei gefnogi yn y modd hwn' fel bod y cyfrifoldeb wedi'i osod yn gadarn ar y pennaeth neu rywun cyfatebol.

Pan holwyd sut y gellid mesur hyn, roedd y cyfranogwyr ar y cyfan yn ei chael yn anodd cynnig dewis arall, ond teimlai rhai y gellid datblygu fformiwla. Un awgrym oedd bod angen cyfrifo yn seiliedig ar nifer y dysgwyr ADY ar gofrestr yr ysgol a oedd hefyd yn ystyried eu cyfnod addysgol a lefel yr ADY.

Roedd rhai cyfranogwyr o'r farn y dylai ADY fod yn rôl lawn-amser mewn lleoliadau mawr (ysgolion uwchradd, ysgolion cynradd mawr) ond roedd llawer yn awyddus iawn i nodi nad oeddent yn cytuno â'r dull hwnnw mewn unrhyw leoliad.

Cwestiwn 2 – Ydych chi'n cytuno â'r tasgau y mae'n rhaid i CADY eu cyflawni neu drefnu eu bod yn cael eu cyflawni fel a nodir yn y Cod Drafft ADY?

At ei gilydd, awgrymwyd fod y disgrifiad o dasgau CADY yn debyg i'r disgrifiad o dasgau CAAA presennol ac nid oedd yn ymddangos bod gan lawer o'r cyfranogwyr unrhyw bryderon mawr ynghylch y rhestr o dasgau gan ei bod yn adlewyrchu eu llwyth gwaith presennol. Teimlent mai'r prif wahaniaeth oedd y byddai'r tasgau yn y rhestr y mae'n 'rhaid' eu cyflawni yn rhwymo mewn cyfraith yn y pen draw. Er bod cytundeb ynghylch egwyddorion y dyletswyddau fel y'u nodwyd, roedd angen mwy o eglurder hefyd ynghylch yr 'amser digonol' i gyflawni pob un ohonynt.

Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo bod y tasgau a nodwyd yn gam mawr i fyny o'u rôl bresennol ac roeddent yn pryderu bod y gofynion mor fawr ac yn dwyn cymaint o gyfrifoldeb. Yn benodol, roeddent yn poeni am y dyletswyddau mwy strategol a nodir yn y rheoliadau. Siaradent am y ffaith bod y tasgau'n rhoi llawer o bwysau ar un unigolyn ac roeddent yn pryderu am deimlo'n ddiamddiffyn yn y rôl. Teimlai rhai fod perygl na fyddai neb yn dymuno ymgymryd â'r rôl yn y dyfodol, gyda'r rhestr hir o dasgau pendant y mae'n 'rhaid' eu cyflawni yn eu troi oddi ar y rôl. Roedd y tebygolrwydd y byddai eu hymwneud ag achosion yn y Tribiwnlys lle'r oedd awdurdod lleol yn apelio yn dod yn rhan fwy o'r swydd-ddisgrifiad hefyd yn rhywbeth oedd yn peri pryder i CADY presennol yn ystod y sesiwn gweithdy.

Awgrymodd rhai fod y rhestr o dasgau yn rhy fawr ac yn rhy agored i ddehongliad. Mynegwyd pryder bod y rhestr o ddyletswyddau (a amlinellir ar t.263 o'r Cod Drafft ADY) o dasgau y mae'n 'rhaid' eu cyflawni mewn perthynas â hyfforddiant, goruchwyliaeth, trefnu a chynghori yn ormod ar ben addysgu a gwaith achosion ADY. Awgrym arall oedd y dylid darparu rhestr o dasgau y mae'n 'rhaid' eu cyflawni ar gyfer yr UDA hefyd. Awgrymodd ychydig o gyfranogwyr y dylai'r Cod ddisgrifio'n fanylach y math o waith y byddai'n ofynnol i staff addysgu ei wneud i gefnogi rôl y CADY.

Un ychwanegiad at y rhestr o dasgau a grybwyllwyd gan nifer fach o'r cyfranogwyr oedd gwaith y CADY (mewn ysgolion uwchradd) o ran gwneud trefniadau mynediad adeg arholiadau (e.e. papurau wedi'u haddasu ac ati). Roedd hyn yn rhan sylweddol o waith rhai CADY a dymunent weld hyn yn cael ei adlewyrchu yn y rhestr o dasgau.

Cwestiwn 3 – A yw'r cymwysterau rhagnodedig i fod yn CADY a nodir yn y Rheoliadau CADY drafft yn briodol?

Roedd cytundeb y dylai unrhyw un mewn rôl CADY fod yn athro cymwysedig yn y lle cyntaf. Er bod cyfranogwyr yn deall pam y cynhwyswyd y rheoliad arfaethedig ynghylch CAAA presennol yn aros yn eu rôl, mynegwyd barn gref na ddylai hyn ddigwydd. Roedd llawer o'r cyfranogwyr yn teimlo, o fabwysiadu'r Cod newydd, y dylai pob CADY fod yn athro cymwysedig fel mater o egwyddor. Roedd eraill yn

anghytuno gan ddadlau bod ychydig o CAAA profiadol iawn yn gweithio mewn ysgolion nad oeddent yn athrawon cymwysedig ac na ddylid colli eu harbenigedd.

Hefyd, cododd rhai cyfranogwyr y mater nad oedd 'athro cymwysedig' ynddo'i hun yn ddigon ac na ddylid disgwyl i ANG gyflawni'r rôl. Awgrymodd ychydig o gyfranogwyr y dylai hyd gwasanaeth a phrofiad fel athro fod yn ofyniad gorfodol hefyd i unrhyw un sy'n dymuno bod yn CADY. Fodd bynnag, teimlai rhai na fyddai hyn bob amser yn bosibl mewn ysgolion llai.

Cyflëwyd rhai safbwyntiau gwahanol ynglŷn â'r angen am brofiad, hyfforddiant neu gymwysterau mwy arbenigol i unrhyw un sy'n ymgymryd â rôl y CADY.

Roedd rhai cyfranogwyr am i'r rheoliadau nodi'r angen i bob CADY gwblhau cymhwyster meistr neu ddiploma (gydag amserlen ynghlwm wrth y gofyniad, e.e. o fewn 5 mlynedd i gael eu penodi). Dadleuodd rhai ei bod yn ofynnol i benaethiaid gwblhau cymwysterau o'r fath ac y dylai CADY fynd trwy broses debyg o ystyried natur strategol y rôl a'r ffaith y byddent ar lefel yr UDA. I rai, byddai hyn ynddo'i hun nid yn unig yn ffordd o godi safonau, ond hefyd yn sicrhau bod y rôl yn denu'r rhai a oedd yn awchu i'w chyflawni. Dadleuwyd hefyd y byddai cymhwyster gofynnol yn codi statws rôl y CADY.

Roedd rhai cyfranogwyr am weld Tystysgrif Ôl-raddedig bwrpasol, orfodol ac wedi'i chyllido'n llawn ar gyfer ADY yn cael ei datblygu gyda darpariaeth rhyddhau am y dydd neu gyfnod sabothol yn bodoli i alluogi athrawon i astudio. Awgrymodd rhai y dylai'r CADY fodloni set o safonau (fel y statws CALU a ddyfernir i staff cymorth) neu ymgymryd â hyfforddiant tebyg i'r Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) ar gyfer y rôl.

Fodd bynnag, nid aeth llawer o'r cyfranogwyr mor bell â dweud y dylai unrhyw gymwysterau ychwanegol fod yn orfodol. Yn hytrach, roeddent am weld llwybr datblygiad proffesiynol clir o gymorth a hyfforddiant i bawb a fyddai'n cyflawni'r rôl. Teimlai un grŵp trafod mai dim ond os darperir cyfres o safonau/cymwyseddau cenedlaethol ar gyfer awdurdodau lleol mewn perthynas â hyfforddiant ADY y ceid tegwch o ran darparu hyfforddiant.

Yn benodol, wrth ystyried y ffaith y bydd yn ofynnol i CADY hyfforddi staff yn eu lleoliadau eu hunain, roedd cyfranogwyr o'r farn ei bod yn bwysig bod CADY eu hunain wedi'u hyfforddi'n llawn ac wedi cael yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw bapurau briffio a datblygiadau yn y maes. Dylai unrhyw unigolion sy'n newydd i'r rôl gael digon o amser a chymorth i addasu i'r rôl, yn ddelfrydol gan gael eu mentora gan CADY mwy profiadol o ysgol gyfagos. Awgrymwyd hefyd y byddai cyfleoedd i rwydweithio ag eraill sy'n cyflawni rôl y CADY yn cael eu croesawu.

Yn ogystal â hyn, roedd cyfranogwyr yn awyddus i sicrhau bod darpariaeth hyfforddiant i athrawon a Chynorthwyrwyr Addysgu yn cael ei threfnu trwy'r awdurdod lleol/consortia hefyd fel bod y rhwydwaith ehangach o staff mewn ysgolion hefyd yn gallu deall yn llawn beth yw eu rôl o ran cefnogi ADY.

Gyda'r sylwadau uchod ar hyfforddiant, galwyd am gyllid i alluogi CADY a'r gweithlu ehangach i ddilyn yr hyfforddiant a'r cyngor arbenigol angenrheidiol sy'n ofynnol.

Roedd llawer o gyfranogwyr yn awyddus i sicrhau bod y Dystysgrif Addysg i Raddedigion yn ymdrin yn ddigonol â materion ADY ac fe awgrymon nhw y dylai modiwl wedi'i neilltuo i ADY fod yn rhan o'r cwrs yn y dyfodol.

8. Cyngor, Gwybodaeth a Datrys Anghytundebau (Penodau 6 a 25)

8.1 Cyd-destun

Mae Pennod 6 o'r Cod Drafft ADY yn darparu canllawiau ar ddyletswyddau awdurdodau lleol o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ('Ddeddf 2018') i wneud trefniadau i ddarparu cyngor a gwybodaeth ynghylch ADY a'r system ADY. Mae'n cynnwys canllawiau ar rôl darparwyr gwasanaethau allanol, ac ar nodau a chynnwys cyngor a gwybodaeth, codi ymwybyddiaeth ohonynt, sicrhau eu bod yn hygyrch, a chynnwys plant, eu rhieni a'u pobl ifanc yn y broses o'u dylunio.

Yn ogystal â chynnwys Pennod 6, bob tro y gwneir penderfyniad ynghylch ADY, gan gynnwys penderfyniad i roi'r gorau i gynnal CDU neu ryw ganlyniad arall i adolygiad, neu pan baratoir a phan roddir copi o CDU, mae'r Cod Drafft ADY yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff priodol ddarparu gwybodaeth am drefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chynghor.

Mae Pennod 25 o'r Cod Drafft ADY yn nodi'r canllawiau a'r gofynion sy'n ymwneud â'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol o dan Ddeddf 2018 i wneud trefniadau i osgoi a datrys anghytundebau. Mae hefyd yn nodi nifer o ofynion gorfodol, a osodir gan y Cod, mewn perthynas â'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau eirioli annibynnol.

8.2 Strwythur

Roedd y gweithdy'n canolbwyntio ar ddau gwestiwn ymgynghori ynghylch canllawiau'r Cod Drafft ADY ar Gyngor, Gwybodaeth a Datrys Anghytundebau.

Darparwyd papur briffio wedi'i baratoi gan Lywodraeth Cymru i'r cyfranogwyr a hwnnw'n cynnwys paragraffau a gymerwyd o'r Cod Drafft ADY sy'n ymwneud â'r pwnc.

Ar ôl sesiwn friffio fer gan yr hwylusydd allanol, bu'r cyfranogwyr yn trafod y cyntaf o'r ddau gwestiwn ymgynghori mewn grwpiau bach. Yna rhannodd y cyfranogwyr ymatebion eu grŵp gyda'r gweithdy cyfan mewn sesiwn a gymedrolwyd gan yr hwylusydd. Yna, bu'r cyfranogwyr yn trafod yr ail gwestiwn yn y grwpiau bach cyn rhannu ymatebion eu grŵp eto.

8.3 Ymatebion

Cwestiwn 1 – Beth ydych chi'n meddwl ddylai'r gofynion ar gyfer awdurdodau lleol fod mewn perthynas â threfniadau i osgoi a datrys anghytundebau?

Trefnu bod gwybodaeth ar gael

Mynegodd llawer o gyfranogwyr yr angen am dryloywder, eglurder a chyfeirio digonol mewn perthynas â gwybodaeth am y trefniadau i osgoi a datrys anghytundebau. Awgrymwyd amrywiaeth o sianeli gwybodaeth posibl.

- Ar-lein: defnyddio'r cyfryngau cymdeithasu, gwefannau gwybodaeth (fel yr awdurdod lleol, gwefan ADY Llywodraeth Cymru, darparwyr yn y sector gwirfoddol, Gyrfa Cymru ar gyfer dysgwyr ôl-16 a gwefannau ysgolion. Awgrymwyd defnyddio podlediadau a fideos YouTube hefyd fel ffordd o ehangu cyrhaeddiad.
- Ar bapur: dosbarthu taflenni a phosteri, gwybodaeth ym mhrosiectysau ysgolion
- Cyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda rhieni

Awgrymwyd fod angen i wybodaeth fod yn hygyrch i bawb hefyd; mewn amrywiaeth o ieithoedd a fformatau lluosog megis fersiynau hawdd i'w darllen, Braille a deunyddiau sy'n hawdd i'w defnyddio. Un awgrym oedd y dylai gwybodaeth fel taflenni gael eu dynodi ar gyfer dau grŵp targed penodol – rhieni a phobl ifanc. Yna gellid dosbarthu taflenni trwy ysgolion.

Roedd llawer o'r cyfranogwyr yn cytuno y dylai'r holl wybodaeth gael ei safoni ar draws awdurdodau lleol, asiantaethau perthnasol, ac ar lefel genedlaethol.

Roedd cyfranogwyr o'r farn y gallai darparu gwybodaeth glir i unigolion o bosibl leihau nifer yr anghydfodau ac, o ganlyniad, yr angen i ddatrys anghydfodau. Gallai defnyddio siart llif gwybodaeth olygu bod rhieni'n cael eu cyfeirio'n haws. Nododd rhai cyfranogwyr hefyd y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gwybodaeth glir ar gael i reoli disgwyliadau rhieni yn well a'u helpu i ddeall pam y gwnaed penderfyniadau penodol. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, nifer yr oriau o gymorth a neilltuir i'w plentyn.

Sicrhau bod gan staff ddealltwriaeth fanwl am y system a'u bod yn ddiduedd

Nododd llawer o'r cyfranogwyr fod angen tryloywder ar draws yr holl asiantaethau, yn anad dim i ddeall eu hystod o amserlenni. Cytunwyd y byddai angen safoni gweithdrefnau a phrosesau clir a chyson ar gyfer pawb. Pwysleisiodd llawer o gyfranogwyr y dylai tribiwnlys fod yn ddewis olaf neu'n gam olaf yn y broses. Roedd cyfranogwyr o'r farn y dylai'r gweithdrefnau a'r prosesau a roddir ar waith ar gyfer datrys anghydfodau ganolbwyntio, yn ddelfrydol, ar osgoi mynd i tribiwnlys, gan fod hon yn broses faith, sy'n mynd â llawer o amser ac adnoddau.

Nododd llawer o'r cyfranogwyr yr angen am hyfforddiant ar gyfer staff i sicrhau bod gan staff ddealltwriaeth fanwl am y system a'u bod yn ddiduedd. Awgrymwyd y gellid cynnig hyfforddiant i athrawon ar osgoi anghydfodau ac ar ddatrys anghydfod yn gyffredinol ac roedd cyfranogwyr yn cydnabod bod sgiliau a phrofiad a geir dros

amser yn bwysig iawn. Roedd cyfranogwyr yn teimlo y byddai hefyd yn werth cynnig hyfforddiant mewn Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol i weithwyr iechyd proffesiynol.

Roedd llawer o gyfranogwyr yn cwestiynu didueddrwydd awdurdodau lleol, o ran eu bod yn sicrhau annibyniaeth wirioneddol yn y broses o ddatrys anghydfod, gan y byddant yn gyfrifol am baratoi a chynnal llawer o CDUiau.

Trafododd rhai cyfranogwyr yr angen i bolisïau a gweithdrefnau gael eu gweithredu, gan sôn am yr anhawster y mae CADY yn ei brofi ar hyn o bryd o ran cael gwybodaeth a dogfennau. Yn benodol, nodwyd fod angen eglurder ynghylch:

- meini prawf mynediad/ymadael
- pryd y gellir terfynu CDU
- yr hyn sy'n gyfystyr â DDdY
- 'llwybrau' asesu
- canllawiau ar ariannu DDdY

Soniodd rhai am yr angen am 'ddull strategol rhanbarthol' yn y cyswllt hwn, gan awgrymu y gallai ymwneud gan awdurdodau lleol ddwyn goblygiadau ar gyfer gweithdrefnau cwynion ysgolion. Yn ôl un cyfranogwr, er bod gan ysgolion bolisïau mynediad agored fel rheol, bydd ar rieni angen mynediad clir a thryloyw at awdurdodau lleol hefyd.

Awgrymodd nifer fach o gyfranogwyr yr opsiwn o gynnal archwiliadau o weithdrefnau presennol, gan gynnwys:

- canllawiau presennol ar brosesau awdurdodau lleol
- arferion amlasiantaeth presennol mewn perthynas ag atgyfeiriadau, asesu (a oes gan y plentyn angen) a rhagnodi (sut y dylid diwallu'r anghenion hynny)
- sut y mae anghydfodau rhwng gweithwyr proffesiynol ynghylch natur anghenion a dulliau posibl o'u diwallu yn cael eu datrys

Awgrymwyd hefyd y dylid cynnwys system adborth fel rhan o ddull sicrhau ansawdd/gwella.

Sicrhau bod trefniadau yn hygyrch i blant a phobl ifanc a'u bod yn diwallu eu hanghenion Cyfathrebu

Pwysleisiodd cyfranogwyr eto fod angen i wybodaeth fod yn glir ac ar gael mewn amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys trafodaethau wyneb yn wyneb, a llais y disgybl / paneli disgyblion / grwpiau ffocws disgyblion. Fodd bynnag, amlygwyd y gallai hyn ddwyn goblygiadau o ran adnoddau ar gyfer awdurdodau lleol.

Pwysleisiwyd hefyd fod angen i'r broses o ddatrys anghydfodau ddigwydd mewn ysgolion lle bynnag y bo modd, er mwyn atal sefyllfaoedd rhag dwysáu.

Yn ôl yr awgrym gan rai cyfranogwyr, lle byddai anghydfodau'n codi a bod angen i awdurdodau lleol ymwneud â hwy, dylai swyddogion yr awdurdod lleol asesu'r plentyn dan sylw ac nid dim ond dibynnu ar waith papur i oleuo penderfyniadau. Un awgrym oedd bod angen rhoi ystyriaeth i amgylchiadau'r plentyn er mwyn sicrhau effeithlonrwydd y prosesau.

Hwyluso mynediad at y trefniadau hyn i blant gyda'u rhieni, eu cyfaill achos neu ar wahân i'w rhieni

Roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod angen i weithwyr proffesiynol ar bob lefel ddefnyddio iaith briodol i osgoi meithrin disgwyliadau afrealistig gan rieni a hynny'n arwain at siomedigaeth. Cyfeiriwyd yn benodol at gamddefnyddio termau megis 'diagnosis' a 'datganiad' yn lle 'asesiad'. Dywedodd un cyfranogwr fod gwrthdaro yn aml yn deillio o gyfathrebu gwael a chamddealltwriaeth yn hytrach nag o unrhyw beth mwy sylfaenol.

Roedd nifer fach o gyfranogwyr yn teimlo na ddylai awdurdodau lleol fod yr unig gyrff a oedd yn gyfrifol am ddatrys anghydfodau ac y dylai fod opsiwn ar gyfer datrys ar lefel yr ysgol (ar y pwynt cynharaf posibl) neu drwy'r bwrdd iechyd perthnasol.

Roedd nifer fach o'r cyfranogwyr yn meddwl bod angen i awdurdodau lleol roi cyngor i ysgolion, yn ogystal â sicrhau bod gan ysgolion y capasiti i osgoi a/neu ymateb yn briodol i anghytundebau. Gwnaed y pwynt na ddylai ysgolion deimlo fel petaent ar eu pen eu hunain, ac awgrymwyd y gall hyn ddigwydd ar hyn o bryd. Awgrymwyd hefyd y dylai awdurdodau lleol ystyried dynodi swyddog penodol i gefnogi ysgolion pe bai anghytundeb yn digwydd. Dadleuodd rhai y dylai awdurdodau lleol ddod yn rhan o bethau cyn gynted ag y bydd anghydfodau'n digwydd ac yn enwedig pan fo cynorthwyyr addysgu yn rhan o'r anghydfod. Fodd bynnag, nodwyd hefyd y bydd prosesau datrys gwrthdaro effeithiol yn gweithio os bydd gan y rhiant ffydd yn y broses a bod y broses yn annibynnol ar awdurdodau lleol.

Cwestiwn 2 - Beth ydych chi'n meddwl ddylai'r gofynion ar gyfer awdurdodau lleol fod mewn perthynas â darparu gwasanaeth eirioli annibynnol?

Awgrymodd llawer o'r cyfranogwyr y byddai gwrthdaro buddiannau pe bai awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau eirioli yn uniongyrchol. Cyfeiriodd llawer o'r cyfranogwyr at ddarparwyr annibynnol fel opsiynau mwy addas ar gyfer gwasanaethau eirioli am eu bod yn wirioneddol annibynnol a diduedd. Holodd rhai cyfranogwyr hefyd sut y byddai sefydliadau o'r fath yn cael eu cynnwys yn y Cod newydd.

Sicrhau ymwybyddiaeth o wasanaethau eirioli

Nodwyd pwysigrwydd cael gwybodaeth glir a chyson am yr holl agweddau ar wasanaethau eirioli, ac roedd ar lawer o'r cyfranogwyr eisiau eglurhad pellach o wasanaethau eirioli ac esboniad clir ar gyfer rhieni / ysgolion. Awgrymodd nifer fach o gyfranogwyr y dylid ystyried strategaethau cyfathrebu ar y sail y dylai fod llai o anghydfodau os yw awdurdodau lleol yn dryloyw ynghylch yr hyn a gynigir.

Dywedodd nifer fach o gyfranogwyr y dylai rhieni fod yn glir bod ganddynt ddewis i siarad yn gyfrinachol gyda rhywun annibynnol, os ydynt yn dymuno. Amlygwyd nad yw Gwasanaethau Partneriaethau Rhieni² wedi'u nodi yn y Cod Drafft ADY a bod rhai achosion yn cael eu huwchgwyfeirio'n rhy gyflym at dribiwnlys ar hyn o bryd.

² Cyrff hyd braich awdurdodau lleol sy'n rhoi gwybodaeth a chyngor i rieni a gofalwyr plant ag ADY.

Galwodd nifer o'r cyfranogwyr am ddull mwy cynyddrannol o gael mynediad at wasanaethau eirioli ac am fwy o gysondeb ledled Cymru.

Hyrwyddo'r defnydd o wasanaethau eirioli annibynnol

Roedd llawer o'r cyfranogwyr o'r farn bod angen i'r gwaith o hyrwyddo gwasanaethau eirioli (a chyfeirio'n effeithiol at asiantaethau allanol) fod yn glir, er mwyn osgoi dryswch ymhlith rhieni a phlant hyd y gellir. Roedd rhai cyfranogwyr yn glir y dylai dyletswyddau awdurdodau lleol ymestyn y tu hwnt i hysbysu disgyblion a rhieni am wasanaethau eirioli i sicrhau bod gwasanaethau yn hygyrch ac yn cael eu defnyddio mewn gwirionedd, fel y bo'n briodol. Awgrymodd rhai cyfranogwyr y dylid cynnwys camau i gyhoeddi cyfeiriaduron ADY gan awdurdodau lleol ac astudiaethau achos penodol o wasanaethau sy'n cael eu rheoli'n dda.

Dywedodd nifer o gyfranogwyr fod angen i brosesau uwchgyfeirio gael eu nodi'n glir mewn ffordd a fyddai'n hygyrch i bobl ifanc / rhieni. Roedd teimlad cryf bod angen i'r rhieni a'r plant gael eu cynnwys yn llawn yn y broses; gan ganiatáu i rieni gael digon o amser i gymryd rhan. Roedd cyfranogwyr yn teimlo bod gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb i gefnogi disgyblion â rhieni nad ydynt o bosibl wedi'u harfogi gystal ag eraill i fynnu eu hawliau. At hynny, amlygwyd ganddynt fod angen sicrhau bod disgyblion a rhieni yn deall eu bod yn gallu dod ag eiriolwr i gyfarfodydd adolygu os dymunant.

Roedd y cyfranogwyr yn cytuno ei bod yn hanfodol bod yr holl gyfathrebu â phlant a rhieni yn digwydd mewn iaith glir. Roedd y cyfranogwyr yn teimlo ei bod yn hanfodol bod gwasanaethau eirioli yn diwallu anghenion yr holl blant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai sy'n defnyddio dulliau cyfathrebu di-eiriau a/neu sydd â sgiliau cyfathrebu cyfyngedig. At hynny, teimlai rhai cyfranogwyr y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r rhesymeg dros benderfyniadau yn gallu cael ei nodi'n glir ar gyfer plant a rhieni.

Pwysleisiodd rhai cyfranogwyr mor bwysig oedd hi bod cyngor a gwybodaeth ar gael mewn ieithoedd ar wahân i Gymraeg neu Saesneg, o ystyried nad yw'r naill na'r llall yn iaith gyntaf i rai rhieni. At hynny, nododd cyfranogwyr fod rhai plant yn cyrraedd ysgolion gyda dogfennau sy'n ymwneud ag anghenion dysgu mewn ieithoedd ar wahân i Saesneg.

Sicrhau gwasanaethau eirioli sy'n cael eu rhedeg yn effeithlon

Awgrymodd nifer o gyfranogwyr fod asiantaethau allanol eisoes wedi hen ennill eu plwyf a bod rhieni yn ymddiried ynddynt i gynnig gwasanaeth effeithiol. Mynegodd nifer fach o gyfranogwyr y potensial ar gyfer cydweithio, partneriaethau a chyfleoedd hyfforddi gydag asiantaethau allanol. Credai eraill y gallai awdurdodau lleol gyflogi eu heiriolwyr 'mewnol' eu hunain, er bod rhai'n cytuno bod angen trefniadau llywodraethu da ar wasanaethau eirioli a bod angen iddynt 'fod â dannedd' o ran cynrychioli barn plant a rhieni.

Awgrymodd rhai cyfranogwyr y dylai Llywodraeth Cymru ariannu gwasanaethau eirioli yn uniongyrchol; gan ddarparu ar gyfer model cenedlaethol a chynnig safonol ledled Cymru, gyda threfniadau adrodd cenedlaethol. Dadleuodd eraill dros

wasanaethau eirioli rhanbarthol a fyddai'n gweithredu ar draws ffiniau rhwng meysydd gwasanaeth e.e. plant sy'n derbyn gofal, amddiffyn plant ac ADY. Ar hyn o bryd, yn ôl cyfranogwyr, gall plant gael gwasanaeth gan wahanol fathau o eiriolwyr a gyflogir gan wahanol sefydliadau, na fyddai'n wasanaeth sydd wedi ei integreiddio'n dda.

Sicrhau eiriolwyr gwybodus, hyfforddedig ac effeithiol

Bu'r cyfranogwyr yn trafod yr agweddau pwysig ar eiriolaeth, gan gynnwys hyfforddiant, profiad a sgiliau cyfathrebu. Dywedwyd y dylai fod hyfforddiant priodol gorfodol i eiriolwyr. Awgrymodd llawer o gyfranogwyr fod gan eiriolwyr ddealltwriaeth am y sector addysg a phrofiad ohono ond bod angen iddynt allu addasu hefyd. Awgrymodd nifer fach o gyfranogwyr y dylai staff ysgolion ac awdurdodau lleol gael eu hyfforddi mewn ADY ac yn y Cod Drafft ADY er mwyn osgoi dryswch o dan y ddeddfwriaeth newydd.

Cytunai llawer o'r cyfranogwyr y dylai eiriolwyr feddu ar sgiliau cyfathrebu rhagorol, gan ei bod yn bwysig iddynt wrando ar farn y plentyn. Awgrymodd nifer fach o gyfranogwyr y dylai eiriolwyr allu cyfathrebu yn newis gyfrwng y plentyn. Fodd bynnag, o ran y Gymraeg, pwysleisiwyd fod recriwtio a chadw eiriolwyr yn her, ni waeth beth fo'u sgiliau iaith, ac y gallai fod yn arbennig o anodd pe bai gofyn i eiriolwyr allu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Fe gwestiynodd rhai cyfranogwyr a oes digon o bobl â chymwysterau addas i ymgymryd â rôl eiriolwyr. Dywedwyd fod angen i awdurdodau lleol sicrhau bod eiriolwyr addas ar gael sy'n meddu ar yr wybodaeth a'r sgiliau priodol. Roedd cyfranogwyr yn teimlo mai rôl yr eiriolwr yw osgoi a datrys anghydfodau yn hytrach na'u huwchgyfeirio.

Codwyd mater rhieni'n gweithredu fel eiriolwyr ar gyfer teuluoedd eraill hefyd. Awgrymwyd y gallai hyn achosi i'r eiriolwr gyfleu ei brofiadau a'i safbwyntiau ei hun yn hytrach nag ymgysylltu mewn ffordd gwbl ddiuedd.

9. Y Camau Nesaf

Ar ôl cyflwyno'r adroddiad hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr adborth a gafwyd gan y cyfranogwyr a oedd yn bresennol yn y digwyddiadau ac a grynhoir yma. Bydd yr adborth hwn yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr â'r holl ymatebion eraill a gafwyd i'r ymgynghoriad, i ystyried pa welliannau y gallai fod eu hangen i'r Cod Drafft ADY a'r rheoliadau arfaethedig cyn eu gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol i'w cymeradwyo.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi crynodeb o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad ynghyd â chyhoeddi'r ymatebion ehangach yn llawn, a'r adroddiad ar yr ymarfer ymgysylltu â phlant a phobl ifanc/rhieni a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

10. Atodiad 1 – sylwadau ychwanegol

Gwnaed nifer o sylwadau yn y gweithdai, nad oeddent o fewn cwmpas y gweithdai eu hunain, ond sydd wedi'u cynnwys yma er gwybodaeth.

Nodwyd fod angen yn aml i'r gwasanaethau cymdeithasol fod yn rhan o'r drafodaeth ADY, ond roedd rhai cyfranogwyr o'r farn nad yw'r Cod Drafft ADY yn cydnabod nac yn adlewyrchu hyn. Mynegodd cyfranogwyr bryderon y gallai cyfeiriadau at awdurdodau lleol gael eu dehongli fel cyfeiriadau at wasanaethau addysg ac y dylid ei gwneud yn fwy amlwg bod hyn yn cynnwys gwasanaethau cymdeithasol. Yn y Cod Drafft ADY, roedd cyfranogwyr yn teimlo bod llai o bwyslais ar ofal cymdeithasol nag ar iechyd o ganlyniad i hyn.

Roedd rhai cyfranogwyr yn pryderu am ddiffyg canfyddedig gofal cymdeithasol/gwasanaethau cymdeithasol priodol i oedolion mewn perthynas â gweithgareddau o dan y Cod Drafft ADY.

Mewn perthynas â'r bennod ar ddyletswyddau cyrff iechyd a phersonau perthnasol eraill (Pennod 15), roedd pryder mai ychydig iawn o bwyslais oedd ar weithgareddau y mae'n 'rhaid' i Fyrddau Iechyd Lleol neu SACDA eu cyflawni a bod mwy o bwyslais ar yr hyn y 'dylai' y rhain ei gyflawni – roedd hyn yn wahanol i'r hyn a ddisgwyliid gan ysgolion ac awdurdodau lleol. Fodd bynnag, roedd rhai cyfranogwyr yn dawelach eu meddwl pan eglurwyd y rhesymau dros hyn a phan gafodd natur 'dylai' mewn perthynas â chanllawiau statudol ei ailddatgan.

Roedd cyfranogwyr yn cytuno bod SAADY y Blynnyddoedd Cynnar yn rôl bwysig ac yn croesawu'r ffaith bod y Ddeddf yn ei gwneud yn orfodol i awdurdod lleol ddynodi SAADY y Blynnyddoedd Cynnar.

Mynegodd llawer o gyfranogwyr, gan gynnwys y rhai nad oeddent yn cynrychioli awdurdod lleol, bryder ynghylch sut y câi rôl mor bwysig ei hariannu mewn cyfnod o bwysau difrifol ar gyllidebau awdurdodau lleol.

Mynegodd rhai cyfranogwyr bryder ehangach am y diffyg cyfeiriad yn ôl pob golwg at ddarpariaeth ADY y Blynnyddoedd Cynnar yn y Cod Drafft ADY yn gyffredinol.

Er eu bod yn cydnabod bod hynny o bosibl y tu hwnt i gwmpas y Cod, pwysleisiodd rhai cyfranogwyr yr angen i ddarparu hyfforddiant ar gyfer — yn ogystal â chan, fel sydd wedi'i gynnwys yn y canllawiau arfaethedig — SAADY y Blynnyddoedd Cynnar. Fe wnaeth eraill — gan gydnabod bod pob awdurdod lleol yn wahanol, ac y bydd rôl SAADY y blynnyddoedd cynnar bob amser yn adlewyrchu hyn i ryw raddau — godi'r angen i greu fforwm i alluogi SAADY y Blynnyddoedd Cynnar i ddod ynghyd a rhannu arfer gorau yn rheolaidd. Cyngor, Gwybodaeth a Datrys Anghytundebau.

Cododd rhai cyfranogwyr y pwynt bod rhai teuluoedd yn dewis symud o un awdurdod lleol i'r llall ar hyn o bryd, os teimlant eu bod yn gallu cael mynediad at well gwasanaethau a chymorth yn yr ardal gyfagos.

Roedd nifer o gyfranogwyr yn pryderu ynghylch sut y gellid ariannu gwasanaethau eirioli annibynnol, o ystyried sefyllfa ariannol heriol llawer o awdurdodau lleol.

Mynegwyd pryder hefyd y gellid dargyfeirio unrhyw gyllid ar gyfer gwasanaethau eirioli i gefnogi haen arall o fiwrocratiaeth. Nodwyd fod awdurdodau lleol gwahanol yn ymdrin â chyllidebau mewn ffordd wahanol, gan ei gwneud yn anodd sicrhau cysondeb o ran gwasanaethau.

Gwnaeth llawer o'r cyfranogwyr sylwadau am yr effaith y bydd cyflawni darpariaethau'r Ddeddf yn ei chael ar ysgolion; er enghraifft, mae angen i ysgolion gael adnoddau priodol i ddarparu / caffael DDdY o safon uchel ac awgrymwyd y byddai hyn yn helpu i osgoi anghytundeb. Lle nad yw ysgolion yn gallu diwallu ADY oherwydd cyfyngiadau o ran adnoddau / cyllid, dylent allu trosglwyddo cyfrifoldeb i'r awdurdod lleol. Awgrymwyd y gallai defnyddio TGCh yn effeithiol helpu i hwyluso cyfathrebu effeithiol rhwng y partïon yn hyn o beth.

Roedd llawer o gyfranogwyr yn cytuno â'r gofynion o ran cyngor, gwybodaeth a datrys anghytundebau mewn egwyddor, ond teimlent y gallai fod effaith o ran y cyfyngiadau ar adnoddau ac amser ar awdurdodau lleol sydd â chyllid a staff cyfyngedig. Dywedwyd fod canllawiau ar wrthdaro eisoes yn bodoli, ond mai diffyg adnoddau i rannu'r wybodaeth hon yw'r rhwystr, yn hytrach na diffyg bodolaeth yr wybodaeth ei hun.

Dywedodd un cyfranogwr fod angen arweiniad clir ynghylch yr hyn sy'n gyfystyr â CDU gan ysgol a CDU gan awdurdod lleol, a fyddai'n cynnwys egluro diffiniadau o ADY a rolau a chyfrifoldebau.